

Rheolau Ofcom ar ddidueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy, etholiadau a refferenda:

- 1) Dileu'r rhestr o bleidiau mwy
- 2) Defnyddio'r rheolau gyda'r BBC

Dyddiad cyhoeddi:

Datganiad
9 Mawrth 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi penderfyniad Ofcom i ddiwygio Adran Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod Darlledu ("y Cod") a rheolau Ofcom ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i ddileu'r cysyniad o'r rhestr o bleidiau mwy.

Bydd hyn yn rhoi mwy o ryddid golygyddol i ddarlledwyr er mwyn gwneud penderfyniadau yng nghyswllt etholiadau drwy gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol, a bydd ymgeiswyr a phleidiau yn dal i allu i apelio i Ofcom ynghylch penderfyniadau darlledwyr.

Er mwyn helpu darlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol yn ystod ymgyrchoedd etholiadau, byddwn yn cyhoeddi crynodeb blynyddol o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol yn y cyfnod cyn pob etholiad ym mis Mai. Rydym hefyd wedi nodi'r ffactorau byddwn yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch etholiadau, gan gynnwys y byddwn yn rhoi mwy o bwysau i dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol na thystiolaeth o gefnogaeth bresennol (ee polau piniwn).

Yn y ddogfen hon rydyn ni hefyd yn cadarnhau sut rydyn ni'n bwriadu rheoleiddio cynnwys golygyddol y BBC o ran didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy, etholiadau a refferenda. Yn benodol, rydyn ni wedi diwygio: Adran Pump (didueddrwydd dyladwy) y Cod; Adran Chwech y Cod; a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda.

Bydd y Rheolau diwygiedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda (sydd yn Atodiad 1) a'r rheolau diwygiedig yn Adran Pump ac Adran Chwech y Cod (sydd yn Atodiad 2) yn dod i rym ar 22 Mawrth 2017. Byddwn yn eu cyhoeddi ar y dyddiad hwnnw a byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Harweiniad wedi'i ddiweddarau i Adran Pump ac Adran Chwech y Cod. Yn unol â'r trefniadau pontio yn Siarter a Chytundeb y BBC, bydd Adrannau Pump a Chwech o'r Cod a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, fel y'u diwygiwyd, yn berthnasol i'r BBC o 22 Mawrth 2017 ymlaen.

Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Cyflwyniad	1
2	Penderfyniad Ofcom ynghylch y rhestr o bleidiau mwy a'r diwygiadau i Adran Chwech y Cod a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda	4
3	Penderfyniad Ofcom ar y diwygiadau i Adran Pump y Cod: didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy	22
Atodiad		Tudalen
1	Y rheolau terfynol ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda	28
2	Adran Pump ac Adran Chwech Terfynol y Cod	33
3	Y cefndir statudol	40
4	Safbwyntiau ymatebwyr ar y cynigion yn ein Hymgyngoriad	44

Adran 1

Cyflwyniad

1.1 Ar 10 Tachwedd 2016 roeddem wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ("yr Ymgynghoriad") yn nodi:

- ein cynnig i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy o'n rheolau ynghylch etholiadau. Roeddem yn cynnig rhoi mwy o ryddid golygyddol i ddarllledwyr er mwyn gwneud penderfyniadau yng nghyswllt etholiadau drwy gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol, gan gadw gallu ymgeiswyr a phleidiau i apelio i Ofcom ynghylch penderfyniadau darllledwyr.
- diwygiadau i Adran Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod a'r Rheolau ar ddarlllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda er mwyn ymgorffori Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ("gwasanaethau darlledu'r BBC")¹ a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU²; a
- mân ddiwygiadau i Adran Pump (diueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy) y Cod er mwyn ymgorffori gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU.

Y cefndir a'r amcanion statudol

- 1.2 Prif ddyletswydd Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol (adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Yn benodol, ac ymysg pethau eraill, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath (adran 3(2)(e) o'r Ddeddf).
- 1.3 O dan adran 319 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Ofcom lunio cod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, gan osod y safonau o'r fath sy'n ymddangos iddo fel y rhai gorau i sicrhau nifer o amcanion safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni. Mae'r safonau mae Ofcom wedi'u gosod wedi'u cynnwys yn y Cod. Mae Adran Pump³ y Cod yn nodi'r rheolau sy'n adlewyrchu'r amcanion safonau o ran didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy. Mae Adran Chwech⁴ y Cod yn nodi'r rheolau ar gyfer cynnwys golygyddol sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda.
- 1.4 Ar ben hynny, mae adran 333 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd benodol ar Ofcom o ran rheoleiddio'r drefn o gynnwys darlllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darlllediadau etholiadol gan bleidiau) a darlllediadau ymgyrchoedd refferenda. Rydyn ni wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gynnwys yr amodau angenrheidiol yn y

¹ Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ydy gwasanaethau darlledu'r BBC sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded (ac eithrio'r World Service).

² Fel y BBC iPlayer a Kids iPlayer (rhaglenni clyweledol a sain ill dau).

³ Mae ein rheolau diwygiedig yn Adran Pump wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

⁴ Mae ein rheolau diwygiedig yn Adran Chwech wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

trwyddedau darlledu teledu a radio perthnasol a drwy'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda⁵.

- 1.5 Mae Atodiad 3 yn cynnwys manylion y cefndir statudol llawn.

Adnewyddu Siarter y BBC

- 1.6 Ar 15 Rhagfyr 2016 cyhoeddodd⁶ y Llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith newydd ar gyfer y BBC. Daw'r Siarter a'r Cytundeb i rym ar 3 Ebrill 2017. Mae trefniadau pontio ar waith hyd at 3 Ebrill 2017. Yn benodol, bydd Adrannau Pump (diueddrwydd dyladwy) a Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod, a rheolau Ofcom ar ddarllediadau gwleidyddol a refferenda, yn berthnasol i'r BBC o 22 Mawrth 2017 ymlaen.
- 1.7 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu ei bod yn rhaid i Ofcom sicrhau safonau cynnwys ar gyfer y BBC, a bod gwasanaethau darlledu'r BBC yn cydymffurfio â gofynion y Cod, a bod gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU yn cydymffurfio â'r gofynion hynny i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu sy'n berthnasol.
- 1.8 O dan y Cytundeb mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi'r gofynion ar y BBC y mae Ofcom yn credu sy'n briodol, er mwyn mynnu bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferenda yn cael eu cynnwys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus o'r fath yn y DU fel y mae Ofcom yn credu sy'n briodol.
- 1.9 Mae gan Ofcom ddyletswydd i adolygu ac i ddiwygio'r Cod o bryd i'w gilydd pan fyddwn yn credu bod hynny'n angenrheidiol. Wrth ystyried cyfrifoldebau newydd Ofcom dros y BBC, roedd angen diweddarau ein Cod a'r rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda.

Crynodeb cyffredinol o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.10 Roeddem wedi cael ymatebion i'r Ymgynghoriad gan: y BBC; Dr Sally Broughton Micova; Channel 4; Channel 5 Broadcasting Limited ("Channel 5"); y Blaid Geidwadol; y Gynghrair Cefn Gwlad; Dr Stephen Cushion⁷; y Comisiwn Etholiadol; yr Athro Ivor Gaber; Global Radio; ITN; ITV a STV ("ITV/STV"); yr International Broadcasting Trust ("yr IBT"); y Blaid Lafur; y Democratiaid Rhyddfrydol; S4C; Plaid Werdd yr Alban; Plaid Genedlaethol yr Alban ("SNP"); Sky News; Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig ("UKIP"); UK Lawyers for Israel; the Voice of the Listener and Viewer ("VLV"); a Fred Weil.

⁵ Mae ein Rheolau diwygiedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

⁶ Edrychwch ar <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>

⁷Roedd yr ymatebydd hwn wedi darparu copi o erthygl academaidd roedd wedi'i ysgrifennu o'r enw *From quantitative precision to qualitative judgements: professional perspectives about the impartiality of television news during the 2015 UK General Election*. Roedd yr erthygl hon yn ddadansoddiad o "sut caiff didueddrwydd ei ddeall a'i ddehongli" ar sail cyfweiliadau a dadansoddiad o adroddiadau gwleidyddol yn ystod Etholiad Cyffredinol 2015 y DU. Nid oeddem o'r farn bod yr erthygl hon yn codi unrhyw faterion yn benodol ar ffurf ymateb i'r cwestiynau roeddem wedi'u gofyn yn yr Ymgynghoriad.

- 1.11 Mae'r ymatebion gan yr ymatebwyr a enwir uchod wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan⁸.
- 1.12 Yn Adran Tri y ddogfen hon, rydyn ni'n crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn rhoi ein penderfyniadau ar:
- a) dileu'r cysyniad o bleidiau gwleidyddol mwy o'n rheolau ynghylch etholiadau;
 - b) y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech y Cod; ac
 - c) y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Reolau Ofcom ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda.
- 1.13 Yn Adran Pedwar, rydym yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn rhoi ein penderfyniad ar y diwygiadau roeddem wedi'u cynnig i Adran Pump y Cod.

Y camau nesaf

- 1.14 Bydd y Rheolau diwygiedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda (sydd yn Atodiad 1) a'r rheolau diwygiedig yn Adran Pump ac Adran Chwech y Cod (sydd yn Atodiad 2) yn dod i rym ar 22 Mawrth 2017, pan fydd y cyfnod etholiad cyntaf ar gyfer etholiadau mis Mai 2017 yn dechrau⁹. Byddwn yn eu cyhoeddi ar y dyddiad hwnnw a byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Harweiniad wedi'i ddiweddarau i Adran Pump ac Adran Chwech y Cod. Yn unol â'r trefniadau pontio yn Siarter a Chytundeb y BBC, bydd Adrannau Pump a Chwech o'r Cod a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, fel y'u diwygiwyd, yn berthnasol i'r BBC o 22 Mawrth 2017 ymlaen.

⁸ Edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/broadcast-impartiality-accuracy-and-elections-rules-review>

⁹ Ym mis Mai 2017, cynhelir yr etholiadau canlynol:

- etholiadau lleol yn Lloegr;
- etholiadau maer yn Lloegr (ar gyfer maeryddiaethau Doncaster a Gogledd Tyneside, ac ar gyfer y swyddi maer sydd newydd gael eu creu ar gyfer yr Awdurdodau Cyfun canlynol: Swydd Caergrawnt a Peterborough; Manceinion Fwyaf; Rhanbarth Dinas Lerpwl; Dyffryn Tees; Gorllewin Lloegr; a Gorllewin Canolbarth Lloegr);
- etholiadau lleol yng Nghymru; ac
- etholiadau lleol yn yr Alban.

Adran 2

Penderfyniad Ofcom ynghylch y rhestr o bleidiau mwy a'r diwygiadau i Adran Chwech y Cod a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda

Cyflwyniad

- 2.1 Yn yr adran hon, rydyn ni'n crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn rhoi ein penderfyniadau ar:
- a) dileu'r cysyniad o bleidiau mwy o'n rheolau ynghylch etholiadau;
 - b) y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech y Cod; ac
 - c) y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda.
- 2.2 Roedd y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech y Cod a'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn adlewyrchu: yn gyntaf, ein cynnig i ddileu'r cysyniad o'r rhestr o bleidiau mwy o'n rheolau; ac yn ail, y dull gweithredu roeddem yn ei gynnig ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU.
- 2.3 Mae'r swyddogaethau mae'r Senedd wedi'u rhoi i Ofcom ym maes etholiadau a refferenda yn disgyn i ddau faes cyffredinol:
- sylw golygyddol i etholiadau a refferenda: rydym yn mynnu bod sylw golygyddol darlledwyr sy'n berthnasol i etholiadau a refferenda yn cydymffurfio ag Adran Pump (diueddrwydd dyladwy) ac Adran Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod, gan gynnwys Rheolau 6.8 ymlaen sydd yno er mwyn cydymffurfio ag adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983¹⁰; a
 - darllediadau etholiadol gan bleidiau, Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Darllediadau Ymgyrchoedd Refferendwm: y ddadl yw y byddai caniatáu hysbysebion gwleidyddol yn y cyfryngau darlledu yn rhoi mantais i'r ymgeiswyr, y pleidiau neu'r sefydliadau sydd â'r mwyaf o arian yn ystod etholiadau a refferenda. Mae darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm wedi cael eu dylunio i wneud iawn am allu gwahanol y pleidiau i ddenu arian ymgyrchu. Mae'r Senedd wedi rhoi'r ddyletswydd i Ofcom lunio'r rheolau (hy y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda) ynghylch

¹⁰O dan adran 93, rhaid i Ofcom fabwysiadu a sicrhau bod darlledwyr sydd dan drwydded i Ofcom yn dilyn cod ymarfer mewn perthynas â chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau darlledu ynghylch yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw.

dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm, eu hyd a pha mor aml y cânt eu darlledu, ac yn nodi'r darlledwyr y mae'n rhaid iddynt eu darlledu.

- 2.4 Mewn perthynas ag etholiadau a refferenda, mae Cytundeb¹¹ newydd y BBC yn mynnu:
- a) rhaid i sylw golygyddol i etholiadau a refferenda sy'n cael ei gynnwys yng ngwasanaethau darlledu'r BBC ddilyn y safonau sy'n cael eu gosod gan Ofcom o dan adran 319 o'r Ddeddf, a rhaid i'r sylw yng ngwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU ddilyn y safonau hynny i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu sy'n berthnasol (paragraff 3 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.); ac
 - b) bydd Ofcom yn rhoi'r gofynion mae'n credu sy'n briodol mewn perthynas â chynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Cytundeb).
- 2.5 Yng ngweddill yr adran hon, byddwn yn ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ac yn rhoi ein penderfyniadau mewn perthynas â'r tri mater a nodwyd ym mharagraff 2.1. Mae crynodeb o'r ymatebion ar gael yn Atodiad 4.

Y pleidiau mwy

- 2.6 Hyd yma mae'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda ac Adran Chwech y Cod wedi rhoi rhwymedigaethau ar ddarlledwyr drwy gyfeirio at restr o bleidiau mwy, sydd wedi bod mewn atodiad annibynnol i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda ac Adran Chwech y Cod.
- 2.7 Roedd y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn mynnu ei bod yn rhaid i rai darlledwyr trwyddedig gynnig o leiaf dau ddarllediad etholiadol gan bleidiau ar gyfer pob un o'r 'pleidiau mwy' sydd wedi'u diffinio (os nad oedd plaid ar y rhestr gallai dal fod yn gymwys ar gyfer darllediadau etholiadol gan bleidiau). Ar ben hynny, mewn perthynas â rhaglenni'r darlledwyr ynghylch etholiad, roedd Adran Chwech y Cod yn mynnu bod darlledwyr yn eu sylw etholiadol yn rhoi "pwys dyladwy"¹² i'r 'pleidiau mwy' ac, wrth ddarlledu eitemau sy'n cynnwys ymgeiswyr yn trafod neu'n codi materion am yr etholaethau neu'r ardaloedd etholiadol maen nhw'n sefyll ynddyn nhw, roedd Rheol 6.9¹³ yn mynnu ei bod yn rhaid cynnig cyfle i'r ymgeiswyr sy'n cynrychioli'r pleidiau mwy gymryd rhan.
- 2.8 Yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi egluro bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y rhestr o bleidiau mwy dros nifer o flynyddoedd ac wrth ystyried bod Ofcom yn adolygu ei reolau ynghylch etholiadau i gynnwys y BBC, roeddem o'r farn ei bod hi'n briodol adolygu pa mor addas oedd y rhestr o bleidiau mwy ar yr un pryd.

¹¹ Yn y cyswllt hwn, roedd y Cytundeb a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2016 yr un un â'r fersiwn drafft a gyhoeddwyd adeg ein Hymgyngoriad.

¹² Edrychwch ar Reol 6.2 o'r Cod a oedd yn datgan adeg yr Ymgynghoriad: "Rhaid rhoi pwys dyladwy i'r sylw i bleidiau mwy yn ystod cyfnod yr etholiad. Rhaid i ddarlledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau eraill ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig".

¹³ Adeg yr Ymgynghoriad roedd Rheol 6.9 yn datgan: "Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ei etholaeth neu ei ardal etholiadol penodol, yna rhaid cynnig y cyfle i ymgeiswyr o bob un o'r pleidiau mwy gymryd rhan. (Fodd bynnag, os byddan nhw'n gwrthod neu ddim yn gallu cymryd rhan, caiff yr eitem fynd ymlaen.)"

- 2.9 Ar ôl adolygu'r dadleuon o blaid ac yn erbyn dileu'r cysyniad o'r rhestr hon o reolau Ofcom, roeddem o'r farn bod dadleuon cryf dros ei disodli â gofyniad cyffredinol i seilio penderfyniadau golygyddol mewn perthynas â sylw i etholiadau a dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.
- 2.10 Roeddem yn cynnig felly darparu bod darlledwyr yn defnyddio eu crebwyll eu hunain, ar sail meini prawf cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol, yn hytrach na bod yn rhaid iddyn nhw wneud rhai penderfyniadau drwy gyfeirio at restr Ofcom o bleidiau mwy. Byddai pleidiau ac ymgeiswyr yn cadw eu hawl i gwyno i Ofcom os oedden nhw'n anfodlon gyda phenderfyniad gan ddarlledwr mewn perthynas â sylw golygyddol neu ddyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau.
- 2.11 I liniaru'r baich posibl o ran adnoddau, ar ddarlledwyr llai yn benodol, drwy orfod ailasesu cefnogaeth pleidiau'n rheolaidd, roeddem yn cynnig y byddai Ofcom yn cynhyrchu crynodeb blynyddol o dystiolaeth o'r gefnogaeth a fu mewn etholiadau blaenorol a/neu'r gefnogaeth bresennol cyn pob cyfres o etholiadau a gynhelir ym mis Mai¹⁴.
- 2.12 Roeddem wedi gofyn am sylwadau rhanddeiliaid ar:
- a ddylai Ofcom ddileu'r cysyniad o'r rhestr o bleidiau mwy o Adran Chwech y Cod a'r rheolau ar Ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda; ac
 - a ddylai Ofcom gynhyrchu crynodeb blynyddol o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.
- 2.13 Mae crynodeb manwl o gyflwyniadau'r ymatebwyr ynghylch y cynigion ym mharagraff 2.12 wedi'u nodi yn: Atodiad 4, paragraffau A4.2 i A4.18 (mewn perthynas â'n cynnig i ddileu'r cysyniad o'r rhestr o bleidiau mwy o'n rheolau); ac Atodiad 4, paragraffau A4.19 i A4.29 (mewn perthynas â'n cynnig i gynhyrchu crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol).

Ymateb a phenderfyniad Ofcom ynghylch y cysyniad o bleidiau mwy

- 2.14 Roedd mwyafrif helaeth o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynnig i ddileu'r cysyniad o restr o bleidiau mwy o'n rheolau a disodli hynny â gofyniad i seilio penderfyniadau golygyddol, a dyraniadau darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol, ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Roedd hyn yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol, y rheoleiddiwr arbenigol y mae gennym ddyletswydd statudol i ymgynghori â nhw ynghylch materion o'r fath, a ddywedodd fod y rhestr o bleidiau mwy yn "creu ffordd sy'n ddianghenraid o anhyblyg ar gyfer rheoleiddio darlledu mewn etholiadau".
- 2.15 Roedd nifer o ddarlledwyr (y BBC, Channel 4, Channel 5, ITN, a Sky News) yn croesawu'r cynnydd mewn rhyddid golygyddol a fyddai'n dod o ganlyniad i ddileu'r cysyniad ac roeddent yn pwysleisio eu bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r profiad i

¹⁴ Byddai hyn yn ychwanegol at yr arweiniad a gyhoeddir gan Ofcom ynghylch y ffactorau y dylid eu hystyried wrth feddwl am dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol at ddibenion Adran Chwech y Cod. Bydd y Canllawiau diwygiedig i Adran Chwech ar gael ar wefan Ofcom.

wneud penderfyniadau am gynnwys golygyddol sy'n ymwneud ag etholiadau a dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau.

- 2.16 Roedd dwy blaid wleidyddol, Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, hefyd yn cefnogi dileu'r rhestr o bleidiau mwy, gyda Phlaid Genedlaethol yr Alban yn tynnu sylw at etholiadau Senedd yr Alban yn 2016, pan ddynodwyd bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn blaid fwy ac nad oedd Plaid Werdd yr Alban yn blaid fwy, a bod Plaid Werdd yr Alban wedi "ennill cyfran fwy o'r bleidlais ranbarthol ym mis Mai 2016 a bod mwy o'u hymgeiswyr nhw wedi cael eu hethol yn Aelodau Senedd yr Alban nag ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol". Dywedodd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig fod dileu'r cysyniad o bleidiau mwy " ond yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol tirwedd wleidyddol y DU dros y tair blynedd diwethaf".
- 2.17 Roedd y VLV, ynghyd â'r ymatebwyr unigol Dr Sally Broughton Micova a'r Athro Ivor Gaber, yn cefnogi'r newid a oedd yn cael ei gynnig, gyda'r Athro Ivor Gaber yn dadlau y byddai gwneud hynny yn cael gwared ag unrhyw ddylanwad y gallai dynodiad 'plaid fwy' ei gael gyda phleidleiswyr ac yn cydnabod bod y rhestr wedi cael ei chyflwyno'n wreiddiol ar adeg "pan roedd llawer llai o anwadalrwydd etholiadol" ac amrywiadau ar draws y DU.
- 2.18 Roedd ITV/STV ac S4C yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy ar yr amod bod Ofcom hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol. Fel y nodir isod, rydym wedi penderfynu cyhoeddi crynodeb o'r fath, nid yn unig er mwyn diwallu'r pryder a fynegwyd gan S4C ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau a allai wynebu darlledwyr bach wrth wneud penderfyniadau golygyddol o'r fath yn ystod etholiadau.
- 2.19 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai a oedd yn erbyn dileu'r rhestr, fel Global, yn ogystal â rhai oedd yn cefnogi ei dileu, fel S4C a Sky News, yn dadlau y byddai gwneud hynny'n debyg o arwain at ragor o gwynion gan bleidiau i Ofcom am benderfyniadau golygyddol darlledwyr neu ynghylch dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau neu ddarllediadau pleidiau gwleidyddol. Dywedodd ymatebwyr y dylai Ofcom sicrhau ei fod yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn cwynion sy'n ymwneud ag etholiadau. Mae Ofcom yn nodi'r ddatl hon a dyma un o'r rhesymau pam rydym yn credu ei bod hi'n briodol cynhyrchu crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol. Fel rydym yn ei drafod ymhellach isod, rydym o'r farn y bydd crynodeb o'r fath yn helpu darlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol cadarn ar sail gwybodaeth ac felly helpu i leihau apeliadau i Ofcom. Mae gan Ofcom brofiad o ddelio â chwynion uchel eu proffil ynghylch etholiadau ac mae'n credu y byddai'n gallu parhau i allu delio â chwynion o'r fath mewn ffordd amserol a chymesur petai'r rhestr o bleidiau mwy yn cael ei dileu.
- 2.20 Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dadlau bod y gallu i apelio i Ofcom ynghylch penderfyniadau golygyddol yn "wallus" oherwydd bod apeliadau o'r fath yn digwydd ar ôl y darlledu. Nid ydym yn cytuno ei fod yn wallus. Os caiff cwyn ei gwneud sy'n codi mater o bwys o ran didueddrwydd dyladwy yn ystod cyfnod etholiad a bod Ofcom o'r farn bod y gŵyn, petai'n cael ei chadarnhau, yn golygu efallai bod angen gwneud iawn cyn yr etholiad, bydd yn cael ei hystyried gan Bwyllgor Etholiadau Ofcom¹⁵. Mae'r Pwyllgor hwn yn ystyried cwynion mewn cyfnodau byr iawn ac mae

ganddo'r pŵer i gyfarwyddo darlledwr i gymryd camau i wneud iawn cyn diwrnod yr etholiad.

- 2.21 Er bod Plaid Werdd yr Alban yn cytuno â dileu'r rhestr o bleidiau mwy, dywedodd na ddylai hyn ddigwydd os oedd yn golygu gostyngiad yn "yr ystod o leisiau". Yn yr un modd dywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol fod y sialensiau logistaidd sy'n wynebu darlledwyr wrth gynhyrchu adroddiadau ynghylch etholaeth yn "gynnyrch pleidleiswyr" ac "na ddylid anwybyddu hyn at ddibenion cynhyrchu". Ar ben hynny, roedd y Blaid Lafur yn dadlau bod y cysyniad o bleidiau mwy wedi sicrhau "dadl gytbwys a bod gwylwyr yn gallu cael gafael ar ddadleuon ar draws y wlad". Er ein bod o'r farn ei bod hi'n briodol rhoi mwy o ryddid golygyddol i ddarlledwyr, byddem yn disgwyl i ddarlledwyr roi sylw priodol i amrywiaeth eang o bleidiau ac ymgeiswyr. Yn ein barn ni, a oedd yn cael ei rhannu gan nifer o'r ymatebwyr,¹⁶ mae tirwedd wleidyddol y DU yn fwy darniog nag y bu a byddem yn disgwyl i ddarlledwyr adlewyrchu hyn. Rydym yn cytuno â sylw ITN, er ei fod yn croesawu'r cynnydd mewn rhyddid golygyddol a fyddai'n deillio o ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy, y byddai adegau "pan fydd angen cyfweld â nifer mawr o ymgeiswyr" mewn adroddiad ar etholaeth er mwyn sicrhau didueddrwydd dyladwy.
- 2.22 Cyflwynodd Global sawl dadl o blaid cadw'r cysyniad o bleidiau mwy. Er enghraifft, dywedodd fod y rhestr yn galluogi ei staff newyddion i wneud penderfyniadau newyddion "yn gyflym ac ar sail gwybodaeth" a heb restr "y gallai trafodaethau ynghylch adroddiadau am etholaeth fod yn hir ac yn gymhleth". Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod ITN wedi cyfeirio at yr "anawsterau ymarferol" wrth gysylltu â'r holl bleidiau mwy perthnasol a threfnu cyfweiliadau. Ar bwynt gwahanol, roeddem yn nodi bod Global yn "agored i ddileu" y rhestr er mwyn dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau oherwydd "ei bod hi'n hawdd gwneud penderfyniadau ymlaen llaw" yn y maes hwnnw.
- 2.23 Daeth y gwrthwynebiad cryfaf i'n cynnig i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy gan ddwy blaid wleidyddol, y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi cyflwyno nifer o ddadleuon.
- 2.24 Yn gyntaf, roedd y ddwy blaid yn dadlau yn erbyn yr awgrym yn yr Ymgynghoriad bod "tirwedd wleidyddol ddarniog" yn y DU, gan dynnu sylw at y ffaith: bod Llywodraeth Plaid Geidwadol fwyafrifol ar lefel y DU ac mai'r Blaid Lafur ydy'r Wrthblaid Swyddogol yn y San Steffan; mae Prif Weinidogion y DU wedi dod o'r naill blaid neu'r llall ers 1922; ac roedd eu cyfradd gyfun o'r bleidlais yn y ddau Etholiad Cyffredinol diwethaf ym Mhrydain Fawr yn 66.6% (2005) ac yn 68.8% (2015). Fodd bynnag, ym marn Ofcom, bu cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf yn y gefnogaeth i amrywiaeth o bleidiau gwleidyddol, mae'r cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig a'r Blaid Werdd yn dystiolaeth o hyn, ynghyd â chynnydd yn y gefnogaeth i'r pleidiau gwahanol yng ngwledydd y DU.
- 2.25 Yn ail, dywedodd y Blaid Geidwadol fod y cysyniad o bleidiau mwy yn "ddarpariaeth sydd wedi bod mewn lle ers tro, sy'n cydnabod y ffordd caiff cyfansoddiad Senedd y DU ei lunio, o ran y drefn Cyntaf i'r Felin yn Nhŷ'r Cyffredin, ond hefyd yr amlygrwydd a'r statws uwch a roddir i'r gwrthbleidiau mwyaf". Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd Senedd y DU, fel rydym wedi'i egluro yn ein Datganiadau blaenorol ynghylch y maes hwn, mae'r rhestr o bleidiau mwy yn adlewyrchu'r ffaith fod gan rai

¹⁵ Edrychwch ar Gylch Gorchwyl Pwyllgor Etholiadau Ofcom: <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/committees/election-committee>

¹⁶ Ond nid y Blaid Geidwadol na'r Blaid Lafur, gweler isod.

pleidiau gwleidyddol lefel sylweddol o gefnogaeth ymysg etholwyr a nifer o gynrychiolwyr etholedig, ar draws amrywiaeth o etholiadau yn y DU neu'r gwledydd datganoledig. Felly, nid yw'r cysyniad o bleidiau mwy wedi bod yn berthnasol ond i berfformiad pleidiau yn etholiadau Seneddol y DU.

- 2.26 Yn drydydd, dywedodd y Blaid Geidwadol nad ydy pob plaid yr un fath ac na ddylai plaid sydd ag ychydig o gynrychiolwyr etholedig gael yr un statws o ran y sylw yn ystod etholiad â phlaidd sydd â 50 neu 100 o gynrychiolwyr etholedig¹⁷. Rydym yn cytuno ac rydym yn credu y bydd dileu'r rhestr o bleidiau mwy yn rhoi'r rhyddid golygyddol i ddarlledwyr adlewyrchu'n well yr amrywiadau mewn cefnogaeth i'r pleidiau gwleidyddol gwahanol.
- 2.27 Yn bedwerydd, dadleuodd y Blaid Lafur y dylai darlledwyr cenedlaethol "bob amser roi sylw i'r ddwy brif blaid wleidyddol – hyd yn oed os ydy'r ffocws ar ardal lle mae'r Blaid Lafur neu'r Blaid Geidwadol yn annhebyg o ennill, byddant yn dal yn cystadlu yn y nifer mwyaf o seddi'n genedlaethol". Ychwanegodd yr ymatebydd hwn: "Nid yw gwrthod rhoi llais Llafur neu Geidwadol ar stori wleidyddol yn adlewyrchu'r dewis o ran pwy fydd yn arwain y wlad yn y pen draw". Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, ac wrth ystyried y dystiolaeth o gefnogaeth flaenorol a chefnogaeth bresennol i'r Blaid Geidwadol ac i'r Blaid Lafur ar draws Prydain Fawr mewn etholiadau ar bob lefel, byddem yn disgwyl i ddarlledwyr barhau i roi llawer iawn o sylw i'r ddwy blaid hyn yn ystod etholiadau.
- 2.28 Yn bumed, dywedodd y Blaid Geidwadol y byddai dileu'r rhestr o bleidiau mwy yn golygu bod rhagor o ddarllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol yn cael eu rhoi i "bleidiau lleiafrifol sydd ar yr ymylon ac nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddemocrataidd sylweddol sydd wedi'i sefydlu". Rydym yn anghytuno. Mae'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn cynnwys meini prawf sylfaenol y mae'n rhaid i blaid eu diwallu cyn iddi fod yn gymwys i gael darllediad etholiadol gan bleidiau (fel y gofyniad i gael ymgeiswyr mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi mewn etholiadau Cyntaf i'r Felin, fel Etholiadau Cyffredinol). Bydd hyn yn dal i fod yn wir yn niffyg rhestr o bleidiau mwy.
- 2.29 Yn olaf, dywedodd y Blaid Geidwadol nad oedd yr Ymgynghoriad wedi rhoi digon o resymwaith dros y cynnig i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy ar wahân i gyfeiriad at safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol. Ychwanegodd yr ymatebydd nad oedd y Comisiwn Etholiadol "wedi ymgynghori ynghylch y mater hwn; nad oedd wedi ei godi â'r Panel Pleidiau Seneddol ac nad oes ganddo fandad i hyrwyddo newid rheoleiddio sylweddol". Nid oedd ein cynnig i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy yn seiliedig yn llwyr ar safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol, serch hynny rydym yn ystyried bod ei safbwynt yn ffactor perthnasol ac ystyried mai dyma'r rheoleiddiwr arbenigol y mae gennym ddyletswydd statudol i ymgynghori ag ef ynghylch y materion hyn. Roeddem wedi gosod ein rhesymwaith dros gynnig dileu'r rhestr ym mharagraffau 3.23 i 3.31 yr Ymgynghoriad.
- 2.30 Ar ôl ystyried yr holl ymatebion, rydym o'r farn ei bod hi'n briodol dileu'r cysyniad o bleidiau mwy o'n rheolau a disodli hynny â gofyniad ar ddarlledwyr i wneud penderfyniadau golygyddol sy'n ymwneud ag etholiadau a phenderfyniadau ynghylch dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol drwy

¹⁷ Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud pwynt tebyg drwy ddadlau y dylai lefelau'r sylw darlledu "beidio â golygu cydraddoldeb mewn darllediadau ar draws y DU ar gyfer pleidiau nad ydynt yn ceisio llywodraethu'r DU i gyd".

gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.

- 2.31 Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dadlau bod angen cael “meini prawf gwrthrychol a chllir” ynghylch beth ydy cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol; ac y dylai Ofcom roi diffiniad cyn cyfnod etholiad ynghylch “pa berfformiad sy’n angenrheidiol er mwyn i blaid gael lefel benodol o sylw a chydraddoldeb â phleidiau eraill”. Nid ydym o’r farn y byddai’n briodol, nac yn syml, i Ofcom nodi lefelau penodol o sylw y dylid ei roi i bleidiau gwahanol. Mae ein Harweiniad ar Adran Chwec a’r penderfyniadau roeddem wedi’u cyhoeddi mewn perthynas ag etholiadau yn rhoi arweiniad clir ynghylch beth rydyn ni’n ei gredu sy’n gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol.

Y ffactorau bydd Ofcom yn eu hystyried wrth bwysu a mesur gwahanol fathau o dystiolaeth etholiadol

- 2.32 Fodd bynnag, wrth wneud ein penderfyniad i ddileu’r cysyniad o bleidiau mwy o Adran Chwec y Cod a’r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, rydym o’r farn y byddai’n ddefnyddiol nodi’r ffactorau mae Ofcom yn eu hystyried wrth bwysu a mesur y gwahanol fathau o dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch etholiadau. Mae’r ffactorau hyn yn adlewyrchu’r dull gweithredu rydym wedi’i ddilyn gyda chwynion ac yn ein hadolygiadau blaenorol o’r rhestr o bleidiau mwy:

- rydym yn rhoi mwy o bwys ar berfformiad go iawn plaid wleidyddol mewn etholiadau na data pol piniwn. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod perfformiad etholiadol yn fesur o sut mae pleidleiswyr wedi gwneud eu dewis democrataidd. Mae hyn yn cymharu â’r ansicrwydd mwy sydd ynghlwm wrth gefnogaeth mewn polau piniwn, nad yw o reidrwydd yn trosi i fod yn pleidleisiau neu seddi mewn etholiad;
- Wrth ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol, rydym yn ystyried ffactorau fel perfformiad etholiadol pleidiau (gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu hethol a chanran cyffredinol y bleidlais a gafwyd) mewn etholiadau¹⁸ cyfatebol blaenorol dros o leiaf dau gylch etholiadol;
- rydym hefyd yn ystyried perfformiad mewn etholiadau perthnasol blaenorol a gafodd eu cynnal yr un pryd, yn ogystal â pherfformiad mewn etholiadau blaenorol na chawsant eu cynnal ar adeg benodol;
- rydym yn ystyried perfformiad etholiadol pleidiau dros o leiaf dau gylch etholiadol, wrth ystyried perfformiad mewn unrhyw fath o etholiadau. Fodd bynnag, rydym yn rhoi llai o bwys ar dystiolaeth o berfformiad etholiadol dau gylch etholiadol neu fwy wrth ystyried natur hanesyddol y dystiolaeth hon;
- pan fo’n berthnasol byddwn yn ystyried dystiolaeth mewn perthynas â gwledydd datganoledig gwahanol y DU;
- wrth roi lai o bwysau ar gefnogaeth bresennol o’i chymharu â pherfformiad go iawn, rydym yn rhoi pwys ar dystiolaeth o gefnogaeth bresennol sy’n wrthrychol ac yn fesuradwy. Un math o dystiolaeth wrthrychol a mesuradwy o

¹⁸ gan gynnwys is-etholiadau Seneddol San Steffan.

gefnogaeth bresennol ydy data pol piniwn, pan fydd ar gael. Efallai fod mathau eraill o dystiolaeth o gefnogaeth bresennol ond wrth ystyried tystiolaeth o'r fath byddem yn ystyried cysondeb a gwrthrychedd pob math o dystiolaeth; ac

- ein bwriad bob tro ydy cynnal asesiad cytbwys gan ystyried cyfanswm y dystiolaeth berthnasol.

2.33 Bydd y ffactorau sy'n cael eu rhestru ym mharagraff 2.32 yn cael eu cynnwys yn yr Arweiniad a gyhoeddir gan Ofcom ar gyfer Adran Chwech¹⁹, yn ogystal â'n crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth flaenorol a/neu gefnogaeth bresennol (gweler isod).

Ymateb a phenderfyniad Ofcom ynghylch y crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol

2.34 Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynnig i gyhoeddi crynodeb o'r fath. Roedd hyn yn cynnwys: y Comisiwn Etholiadol; darlledwyr fel y BBC, Channel 4, Channel 5, ITV a Global; pleidiau fel Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig ac ymatebwyr eraill fel y VLV a'r ddau unigolyn a gyflwynodd ymateb. Roedd y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r cynnig yn cynnwys: y ffaith nad oes gan bob darlledwr yr adnoddau i goladu data perthnasol; ac y byddai rhagor o dryloywder i gefndir penderfyniadau darlledwyr yn y maes hwn, i'r pleidiau ac i'r cyhoedd.

2.35 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig. Dywedodd ITN y gallai crynodeb "fod yn ffordd o weithredu dyfais a fyddai'r un mor anhyblyg" â'r rhestr o bleidiau mwy. Rydym yn anghytuno. Diben crynodeb ystadegol fyddai er mwyn darparu cyfres gynhwysfawr o ddata etholiadol fel adnodd gwybodaeth i ddarlledwyr. Ni fyddai Ofcom yn rhoi unrhyw sylwebaeth, dadansoddiad nac asesiad o'r data hwnnw a'r darlledwyr a fyddai'n ei ddehongli fel sy'n addas yn eu barn nhw. Mewn pwynt cysylltiedig, gofynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol, os ydy crynodeb i helpu darlledwyr llai gyda phenderfyniadau golygyddol "pam na all hyn ymestyn i Ofcom fod yn penderfynu ar safleoedd pleidiau yn fwy cyffredinol" drwy roi "dyfarniad clir" yn ôl meini prawf gwrthrychol? Mae Ofcom yn tanlinellu mai adnodd gwybodaeth yn unig fydd y crynodeb ac, wrth ystyried ein penderfyniad i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy o'n rheolau, ni fyddai'n briodol i ni, wrth gyhoeddi crynodeb o ddata etholiadol perthnasol, gyhoeddi dadansoddiad ac asesiad o'r data hwnnw.

2.36 Roedd dwy blaid wleidyddol (y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur) yn anghytuno â'n cynnig i gynhyrchu crynodeb blynyddol, gan gyflwyno'r dadleuon canlynol:

- dywedodd y Blaid Geidwadol y byddai cynhyrchu crynodeb yn "rhan o gam yn ôl gan ddiraddio statws Etholiadau Cyffredinol y DU". Rydym yn anghytuno. Ein bwriad yw y bydd y crynodeb yn cynnwys canlyniadau pob etholiad arwyddocaol a gynhelir ar draws y DU;
- roedd y Blaid Lafur yn dadlau "ei bod hi eisoes yn gymhleth ac yn anodd cymharu canlyniadau etholiadau blaenorol gydag amrywiaeth o amrywiadau" ac "nad oedd arweiniad clir ynghylch sut bydd 'polau piniwn presennol' yn

¹⁹ Bydd y Canllawiau diwygiedig i Adran Chwech ar gael ar wefan Ofcom.

cael eu barnu a pha bolau a fydd yn cael eu cynnwys/heithrio". Mewn ymateb i'r pwyntiau hun, ym mharagraff 2.32 uchod rydym wedi nodi'r ffactorau byddem yn eu hystyried wrth bwysu a mesur y gwahanol fathau o dystiolaeth etholiadol; ac

- ychwanegodd y Blaid Lafur "gyda newidiadau i ffiniau ar y gorwel, mae hyn yn siŵr o ddod yn hyd yn oed mwy cymhleth ac o'r herwydd bydd yn dod yn fwy anghywir". Rydym yn cydnabod y gallai newidiadau i ffiniau greu anawsterau wrth fesur cefnogaeth ar lefel etholaeth neu ardal etholiadol. Fodd bynnag, wrth asesu cefnogaeth etholiadol pan fydd ffiniau etholaethau wedi newid, byddem yn ystyried ei bod hi'n briodol i ddarllledwyr ystyried perfformiad pleidiau (ee o ran y gyfran o'r bleidlais) mewn etholiadau penodol ar draws gwlad benodol wrth ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol.

2.37 Cododd ITN a'r Blaid Lafur y pryder y byddai crynodeb blynyddol mewn perygl o fynd yn rhy hen yn gyflym. Mae Ofcom yn cydnabod y ddadl hon ond yn tanlinellu mai prif fwrriad y crynodeb ydy bod yn adnodd i ddarllledwyr wrth baratoi ar gyfer yr amrywiol etholiadau a gynhelir yn y DU ym mis Mai bob blwyddyn. Byddai modd i'r darllledwyr gyfeirio at y crynodeb i'w helpu i fframio eu penderfyniadau mewn perthynas â'r hyn rydym yn disgwyl a fydd yn nifer cymharol isel o etholiadau a allai ddigwydd yn nes ymlaen mewn blwyddyn benodol, ond gallai fod angen i ddarllledwyr asesu unrhyw dystiolaeth sy'n fwy diweddar a allai fod yn berthnasol.

2.38 Wrth gyfeirio at ddefnydd darllledwyr sy'n gorfod dyfarnu darlllediadau pleidiau gwleidyddol tymhorol²⁰ o'r crynodeb, holodd S4C am sicrwydd "bod modd dibynnu ar yr wybodaeth a fydd mewn un crynodeb blynyddol tan ddyddiad cyhoeddi crynodeb nesaf Ofcom". Roedd hefyd yn awgrymu y dylai Ofcom ystyried cynhyrchu "crynodeb ategol ar ôl etholiad er mwyn asesu" dyrannu darlllediadau pleidiau gwleidyddol. Rydym yn dehongli hyn fel awgrym y dylai Ofcom gynhyrchu crynodebau ychwanegol cyn Hydref, Gaeaf a/neu Wanwyn bob blwyddyn fel adnodd ar gyfer y darllledwyr hynny sy'n dyrannu darlllediadau pleidiau gwleidyddol tymhorol. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai hynny'n anghymesur. Rydym yn delio ymhellach â phwyntiau S4C ynghylch dyrannu darlllediadau pleidiau gwleidyddol ym mharagraffau 2.62 a 2.63 isod.

2.39 Wrth ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ar y mater hwn, rydym yn credu y byddai'n briodol, cyn bob cyfres o etholiadau a gynhelir ar draws y DU ym mis Mai bob blwyddyn, cyhoeddi crynodeb o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol (ar ffurf canlyniadau etholiadau) a chefnogaeth bresennol (ar ffurf polau piniwn). Byddai crynodeb o'r fath:

- yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth bob blwyddyn, er mwyn iddo allu cynnwys y patrymau diweddaraf mewn data polau piniwn. Nid ydym yn cytuno ag awgrym S4C y dylid cyhoeddi crynodeb o leiaf 12 wythnos cyn dechrau cyfnod etholiad (hy ym mis Rhagfyr y

²⁰ Mae Rheol 21 Diwygiedig y Rheolau ar ddarlllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn datgan: "Ym mhob un o wledydd y DU, cynigir un neu ragor o ddarlllediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau dros gyfnod o 12 mis os:

- oes gan blaid un sedd neu ragor yn y wlad honno mewn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol[.]; ac
- mae tystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu yn y wlad honno'n golygu y byddai'n briodol gwneud hynny".

flwyddyn cyn yr etholiadau) ac ystyried y symudiadau posibl mewn data polau piniwn yn y cyfnod cyn unrhyw etholiadau ym mis Mai; ac

- yn cyflwyno data yn fwy neu lai yn yr un fformat â'n hadolygiadau o'r rhestr o bleidiau mwy mewn blynyddoedd a fu. Byddai'r data yn cynnwys cyfran o'r bleidlais boblogaidd a nifer y cynrychiolwyr etholedig a byddai'n rhestru data ar wahân ar gyfer pedair gwlad y DU.

2.40 Felly er mwyn helpu darlledwyr i baratoi ar gyfer etholiadau mis Mai 2017²¹, rydym wedi cyhoeddi, ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, crynodeb o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol²².

Adran Chwech y Cod

2.41 Yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi dweud, ar ôl adolygu ein dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC yng nghyswllt etholiadau a refferenda, ein bod o'r farn y dylai'r rheolau yn Adran Chwech hefyd fod yn berthnasol i wasanaethau darlledu'r BBC. Roeddem hefyd yn cynnig y diwygiadau canlynol i Adran Chwech:

- Pleidiau mwy: rydym yn cynnig disodli'r gofynion penodol mewn perthynas â phleidiau mwy²³ gyda gofyniad cyffredinol ar bob darlledwr i seilio penderfyniadau golygyddol mewn perthynas â sylw i etholiadau ar dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu dystiolaeth o gefnogaeth bresennol;
- Hyd a lled gwasanaethau: yn unol â'r gofyniad yng Nghytundeb y BBC, y cyfeirir ato ym mharagraff 2.4(a) uchod, ynghylch defnyddio'r Cod gyda Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU, roeddem yn credu y dylai Adran Chwech y Cod fod yn berthnasol i wasanaethau o'r fath hefyd. Roeddem yn cynnig: dylai Rheol 6.4²⁴ (Trafod materion sy'n ymwneud â'r etholiad neu'r refferendwm ar y diwrnod pleidleisio); Rheol 6.6²⁵ (Gwahardd ymgeiswyr rhag ymddangos fel cyfwelwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr yn ystod cyfnodau etholiad a refferendwm); a Rheol 6.7²⁶ (Ymddangosiadau gan ymgeiswyr mewn rhaglenni anwleidyddol) egluro na

²¹ Edrychwch ar droednod yn 8.

²² Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0031/98149/Election-Digest.pdf.

²³ O dan Adran Chwech, roedd yn rhaid i ddarlledwyr roi pwys dyladwy i'r pleidiau mwy yn ystod cyfnod yr etholiad (Rheol 6.2) a chynnig y cyfle i ymgeiswyr y pleidiau mwy gymryd rhan mewn eitemau darlledu am eu hetholaethau neu eu hardaloedd etholiadol sy'n cynnwys ymgeiswyr (Rheol 6.9).

²⁴ Adeg yr Ymgynghoriad roedd Rheol 6.4 yn datgan: "Rhaid rhoi'r gorau i drafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud â'r etholiad neu'r refferendwm pan fydd y bleidlais yn agor. (Mae hyn yn cyfeirio at agor y gorsafoddd pleidleisio eu hunain. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais sy'n cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy'r post.)"

²⁵ Adeg yr Ymgynghoriad roedd Rheol 6.6 yn datgan: "Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU beidio â gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr o unrhyw fath o raglen yn ystod cyfnod yr etholiad".

²⁶ Adeg yr Ymgynghoriad roedd Rheol 6.7 yn datgan: "Mae ymddangosiadau gan ymgeiswyr (yn etholiadau'r DU) neu gynrychiolwyr (i gyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU) mewn rhaglenni anwleidyddol a gafodd eu cynllunio neu eu hamserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm yn cael mynd ymlaen, ond ni ddylid trefnu a darlledu unrhyw ymddangosiadau newydd yn ystod y cyfnod".

fyddai'n rhaid i'r BBC ddileu cynnwys archif oddi ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU yn ystod y cyfnodau perthnasol; a

- Cod ymarfer ar adroddiadau etholaethau ac ardaloedd etholiadol: O dan adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, rhaid i'r BBC fabwysiadu cod ymarfer mewn perthynas â chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau darlledu ynghylch yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw. Roeddem yn cynnig diwygio Adran Chwech i ddarparu y bydd Rheolau 6.8 i 6.12²⁷ yn berthnasol i'r BBC os ydy'r BBC wedi'u mabwysiadu o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl fel ei god ymarfer. Mae hyn yn unol â'r ddarpariaeth ar gyfer S4C, sydd â'r un dyletswyddau â'r BBC o dan adran 93.

- 2.42 Roeddem hefyd wedi dweud ein bod yn bwriadu cyhoeddi Arweiniad wedi'i ddiweddarau i Adran Chwech y Cod. Roeddem wedi nodi bod yr Arweiniad yn rhoi gwybodaeth gefndir i Reol 6.10²⁸ a ffactorau dylai darlledwyr eu hystyried wrth ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Roeddem yn cynnig cadw hyn yn ein Harweiniad i'r Rheol 6.9²⁹ newydd. Roeddem hefyd wedi datgan y byddai'r Arweiniad wedi'i ddiweddarau yn cynnwys penderfyniadau mwy diweddar a oedd wedi'u cyhoeddi ym maes etholiadau a refferenda, yn enwedig mewn perthynas â Rheol 6.3³⁰.
- 2.43 Roeddem wedi gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech a) mewn perthynas â phleidiau mwy a b) cynnwys gwasanaethau darlledu'r BBC a Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae crynodeb manwl o gyflwyniadau'r ymatebwyr ynghylch y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech wedi'u nodi yn: Atodiad 4, paragraffau A4.30 i A4.38.

Ymateb a phenderfyniad Ofcom ynghylch y diwygiadau a oedd yn cael eu cynnig i Adran Chwech

- 2.44 Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys: y BBC, Channel 4, Channel 5, ITN, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, VLV a rhai unigolion a gyflwynodd ymateb. Er bod rhai ymatebwyr, fel Global, yn anghytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfeiriadau at bleidiau mwy am y

²⁷ Gan ystyried y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech (Rheolau 6.8 i 6.13 ar yr adeg honno).

²⁸ Adeg yr Ymgynghoriad roedd Rheol 6.10 yn datgan: "Yn ogystal â Rheol 6.9 rhaid i ddarlledwyr gynnig y cyfle i'r holl ymgeiswyr mewn etholaeth neu ardal etholiadol gymryd rhan mewn adroddiadau a thrafodaethau ynghylch etholaeth neu ardal etholiadol os ydy'r ymgeiswyr hynny'n cynrychioli pleidiau sydd wedi cael cefnogaeth sylweddol mewn etholiadau yn y gorffennol neu lle ceir tystiolaeth o lawer o gefnogaeth ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol. (Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn gwrthod neu'n methu â chymryd rhan, caiff yr eitem fynd ymlaen serch hynny.)".

²⁹ Roedd y rheol 6.9 newydd roeddem yn ei gynnig yn datgan: "Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ei etholaeth neu ei ardal etholiadol yna rhaid i ddarlledwyr gynnig y cyfle i gymryd rhan i'r holl ymgeiswyr yn yr etholaeth neu'r ardal etholiadol sy'n cynrychioli pleidiau sydd wedi cael cefnogaeth sylweddol mewn etholiadau blaenorol neu lle ceir tystiolaeth o gefnogaeth bresennol sylweddol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol. (Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn gwrthod neu ddim yn gallu cymryd rhan, caiff yr eitem fynd ymlaen.)"

³⁰ Mae Rheol 6.3 yn datgan: "Rhaid rhoi pwys dyladwy i sefydliadau dynodedig mewn sylw yn ystod cyfnod y refferendwm. Rhaid i ddarlledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr cymeradwy eraill sydd â safbwyntiau pwysig".

rhesymau a drafodir uchod, roeddent yn cytuno â'r diwygiadau eraill roeddem yn eu cynnig i Adran Chwech.

- 2.45 Rydym yn nodi awgrym ITV/STV i ddileu'r cyfeiriadau at Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU yn Rheolau 6.4, 6.6 a 6.7 a'u rhoi mewn troednodyn. Fodd bynnag rydym o'r farn ei bod hi'n well gadw geiriad y rheolau hyn fel y nodir yn yr Ymgynghoriad i sicrhau eglurder ynghylch ffurf a hyd a lled y rheolau hyn.
- 2.46 Roedd ITN yn awgrymu y dylid disodli'r geiriau "rhaid i ddarllledwyr" gyda "dylai darllledwyr fel rheol" yn Rheol 6.9³¹ oherwydd, yn ei farn ef, mae'r rhwymedigaeth yn Rheol 6.9 "yn atal dewis golygyddol a dylai fod lle mewn achosion eithriadol i beidio â chynnig cyfle i bob ymgeisydd gymryd rhan", ar yr un pryd â chynnal didueddrwydd dyladwy. Er enghraifft, "yn hytrach na'r ymgeisydd lleol efallai ei bod hi'n fwy priodol defnyddio arweinydd / llefarydd cenedlaethol neu un o Weinidogion y Llywodraeth a bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, mewn adroddiad etholiadol sy'n canolbwyntio ar fater penodol....i siarad am y mater". Rydym yn anghytuno. Yn ein barn ni, pan fydd darllledwyr yn cynnwys ymgeiswyr mewn eitemau am yr etholaeth neu'r ardaloedd etholiadol lle maent yn sefyll, er mwyn sicrhau tegwch ac er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i gynulleidfaoedd, rhaid cynnig cyfle i gymryd rhan i unrhyw ymgeisydd sydd â thystiolaeth o gefnogaeth sylweddol mewn etholiadau blaenorol neu gefnogaeth bresennol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cyfyngu ar ryddid golygyddol darllledwyr. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y cyfyngiad yn gymesur ac yn rhesymol i sicrhau, ym maes pwysig darllledu mewn etholiadau, bod pob ymgeisydd sydd â thystiolaeth o gefnogaeth sylweddol mewn etholiadau blaenorol neu gefnogaeth bresennol yn cael lefelau priodol o sylw darllledu.
- 2.47 Rydym yn nodi awgrym Plaid Genedlaethol yr Alban i ddileu'r cyfeiriad at PPERA yn y diffiniad o "refferendwm" yn Adran Chwech, ac yn lle hynny diffinio refferendwm fel "refferendwm ar draws y DU, cenedlaethol neu ranbarthol statudol...". Dywedodd Plaid Genedlaethol yr Alban fod hyn oherwydd bod Refferendwm 2014 ar Annibyniaeth i'r Alban wedi'i ddarparu gan un o Ddeddfau Senedd yr Alban. Rydym yn cydnabod y pwynt hwn ac rydym wedi penderfynu er bod angen cadw'r cyfeiriad at PPERA yn y diffiniad, rydym am ddiwygio'r diffiniad i gynnwys refferenda a gynhelir o dan ddarpariaethau un o Ddeddfau Senedd y DU neu Senedd yr Alban, fel a ganlyn:
- "At ddiben yr adran hon mae refferendwm **yn refferendwm statudol** (y mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("**PPERA**") yn berthnasol iddo) **neu y mae adran 127 o PPERA yn berthnasol iddo**) sydd yn cynnwys refferendwm ar draws y DU, refferendwm cenedlaethol neu ranbarthol **a gynhelir o dan ddarpariaethau un o Ddeddfau Senedd y DU neu Senedd yr Alban**, ond nid yw'n cynnwys refferendwm lleol".
- 2.48 Cyfeiriodd un unigolyn a ymatebodd, Dr Sally Broughton Micova, at Reol 6.2³² yn datgan "bod gan wasanaethau'r BBC ddyletswydd benodol i chwilio am bleidiau lleiafrifol ac ymgeiswyr annibynnol a rhoi sylw iddynt, a'i fod yn cynrychioli

³¹ Edrychwch ar droednodyn 29.

³² Roedd y Rheol 6.2 newydd roeddem yn ei gynnig yn datgan: "Rhaid rhoi pwys dyladwy ar y sylw i'r pleidiau mwy ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw i'w rhoi i bleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, rhaid i ddarllledwyr ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Rhaid i ddarllledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig".

amrywiaeth y wlad yn ddigonol yn ei sylw i ymgeiswyr". Rydym o'r farn bod hwn yn fater golygyddol i'r BBC ac nad yw'n rhywbeth sy'n golygu bod angen i Ofcom ddiwygio ei reolau etholiadau.

- 2.49 Yn yr unig ymateb arall yn y maes hwn roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn mynegi pryder ynghylch y "diffiniad amwys o 'dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol'", a ddylai yn ei farn ef "gael ei ddiffinio'n well gyda mesurau gwrthrychol priodol". Rydym yn egluro sut mae Ofcom yn rhoi pwys ar ffactorau gwahanol mewn perthynas â chefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol ym mharagraff 2.32 uchod.
- 2.50 Wrth ystyried yr uchod i gyd, rydym o'r farn bod y diwygiadau roeddem wedi'u cynnig yn yr Ymgynghoriad yn briodol. Mae fersiwn terfynol o Adran Chwech, gan gynnwys y diwygiad a amlinellir ym mharagraff 2.47 uchod, yn Atodiad 2. Daw'r rheolau hyn i rym ar 22 Mawrth 2017 a byddant ar gael ar wefan Ofcom, yn yr un modd â'r Arweiniad a fydd yn cael ei ddiweddarau ar gyfer Adran Chwech ac rydym yn cyfeirio ato ym mharagraffau 2.32 a 2.42 uchod.

Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda

- 2.51 Yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi dweud ar ôl adolygu ein dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC yng nghyswllt darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm, ein bod o'r farn y dylai'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda hefyd fod yn berthnasol i allbwn darlledu'r BBC. Roeddem yn cynnig y diwygiadau canlynol i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda:
- Hyd a lled gwasanaethau: Roeddem yn cynnig diwygio'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i gynnwys y gwasanaethau darlledu BBC hynny sydd ar hyn o bryd yn darlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm gan ein bod o'r farn bod amrywiaeth a chyrrhaeddiad presennol y gwasanaethau yn briodol;
 - Bod yn gymwys i gael darllediad etholiadol gan bleidiau: Roeddem yn cynnig disodli'r gofyniad y dylid cynnig o leiaf dau ddarllediad etholiadol gan bleidiau i bleidiau mwy yn ystod ymgyrch etholiadol gyda rheol yn datgan y dylai pob plaid sy'n cyflawni meini prawf sylfaenol fod yn gymwys i gael un darllediad etholiadol gan bleidiau. Uwchben y lefelau sylfaenol hyn byddai pleidiau yn dal i gael eu hystyried ar gyfer darllediadau etholiadol gan bleidiau ychwanegol ar sail dystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol;
 - Bod yn gymwys i gael darllediad pleidiau gwleidyddol: Roeddem yn cynnig disodli'r ddarpariaeth mai dim ond y pleidiau hynny a ddynodir yn bleidiau mwy mewn gwleidydd penodol yn y DU sy'n gallu bod yn gymwys i gael darllediadau pleidiau gwleidyddol tymhorol y tu allan i gyfnodau etholiadau gyda'r ddarpariaeth: ym mhob gwlad, bydd plaid yn gymwys i gael darllediadau pleidiau gwleidyddol os oes ganddi un sedd neu ragor yn y wlad honno mewn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol; a thystiolaeth o'i chefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu yn y wlad honno sy'n golygu y byddai'n briodol gwneud hynny; a

- **Amserlennu:** Wrth feddwl ein bod yn ystyried dileu'r cysyniad o bleidiau mwy o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, ac y byddai'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn berthnasol i nifer mawr o wasanaethau ar draws teledu a radio, roeddem yn cynnig symleiddio'r rheolau amserlennu er mwyn golygu ei bod yn rhaid i ddarllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm gael eu hamserlennu rhwng 5.30pm a 11.30pm ar deledu a rhwng 6.00am a 10.00pm ar wasanaethau radio.

2.52 Roeddem wedi gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda a) mewn perthynas â phleidiau mwy; a b) er mwyn cynnwys gwasanaethau darlledu'r BBC. Mae crynodeb manwl o gyflwyniadau'r ymatebwyr ynghylch y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda wedi'u nodi yn: Atodiad 4, paragraffau A4.39 i A4.47.

Ymateb a phenderfyniad Ofcom ynghylch y diwygiadau a oedd yn cael eu cynnig i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda

- 2.53 Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys: y BBC, ITN, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, y VLV a rhai unigolion a gyflwynodd ymateb.
- 2.54 Roedd Channel 4, Channel 5 ac ITV/STV yn gwrthwynebu'r cynnig i gadw'r rhwymedigaeth yn Rheol 14 o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda sef bod Channel 4 a Channel 5 yn darlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru. Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod hyn: yn cyfyngu ar ryddid golygyddol; yn rhoi triniaeth ffafriol i Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru; gall lesteirio pleidiau eraill sydd efallai'n dangos cefnogaeth sylweddol yng Nghymru a'r Alban; ac roedd yn mynd yn groes i ddull gweithredu cyffredinol Ofcom sef dileu cyfeiriadau at bleidiau a enwir o'i reolau. Rydym yn nodi datganiad Channel 5 y byddai'n parhau i "gydnabod Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru yn briodol" yn ei ddyraniadau o ddarllediadau etholiadol gan bleidiau. Awgrymodd Channel 4 ddiwygio'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i fynnu bod Channel 4 a Channel 5 yn cynnig darllediadau etholiadol gan bleidiau i bleidiau cofrestredig yng Nghymru a'r Alban gan ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.
- 2.55 Rydym wedi ystyried y dadleuon hyn yn ofalus. Fodd bynnag, heb y rhwymedigaeth hon, ni fyddai dwy blaid bwysig yng Nghymru a'r Alban fel arall yn gymwys i gael darllediadau etholiadol gan bleidiau ar Channel 4 na Channel 5 fel darlledwyr teledu ar draws Prydain Fawr. Rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig bod pleidleiswyr yng Nghymru a'r Alban yn cael cyfle i wyllo darllediadau etholiadol gan bleidiau gan y cystadleuwyr pwysig hyn mewn etholiadau pwysig yn y gwledydd hyn. Ymhellach, rydym yn nodi y bu'n nodwedd ers tro yn y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i'r darlledwyr hyn ddarlledu darllediadau ar gyfer Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru, a bod cynulleidfaoedd wedi hen arfer gallu gwyllo darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer y ddwy blaid ar Channel 4 a Channel 5. Rydym felly wedi penderfynu ei bod hi'n briodol ac yn gymesur cynnal y rhwymedigaeth ar Channel 4 a Channel 5 i ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru.
- 2.56 Dywedodd Channel 5, o dan Rheol 14 a ddrafftwyd fel y'i cynigiwyd, ni fyddai'n rhaid i Channel 4 na Channel 5 ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer

Plaid Genedlaethol yr Alban na Phlaid Cymru, oherwydd bod Rheol 14 yn croesgyfeirio i Reolau 15 ac 16, ac na fyddai'r ddwy blaid hynny'n gymwys i gael darllediadau etholiadol gan bleidiau ar ddarlledwyr ar draws Prydain Fawr o dan Reolau 15 ac 16. Er mwyn bod yn glir rydym felly wedi penderfynu diwygio Rheol 14 fel a ganlyn (gyda'r diwygiadau i'r ddrafftio a gynigir wedi cael eu rhoi mewn testun trwm):

“Cyn Etholiad Cyffredinol, ac yn achos etholiadau eraill pan fydd hynny'n briodol, dylid cynnig i bob un o'r pleidiau cofrestredig (yn amodol ar Reolau 15 a 16) un darllediad etholiadol gan bleidiau neu ragor, a'r Trwyddedai fydd yn penderfynu ar hyd y gyfres a gynigir i blaid benodol. **Ar ben hynny, mae'n rhaid i Channel 4 a Channel 5 ill dau gynnig un darllediad etholiadol gan bleidiau neu fwy i Mae hyn yn cynnwys** Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru **ar Channel 4 a Channel 5**. Ym mhob achos, dylid penderfynu ar nifer y darllediadau etholiadol gan bleidiau gan ystyried amgylchiadau etholiad penodol, y wlad lle caiff ei gynnal, a chefnogaeth y blaid unigol mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol yn y wlad honno (edrychwch ar Reol 16).”

- 2.57 Roedd ITV/STV yn credu bod rhai o'r diwygiadau a oedd yn cael eu cynnig “yn ddianghenraid o gyfreithiol a chymhleth”. Roedd yn awgrymu disodli'r term “Gwasanaethau Perthnasol” gyda “darlledwyr”. Fodd bynnag, mae'n well gennym gadw'r geiriau presennol er mwyn egluro nad yw pawb sy'n dal trwydded gan Ofcom yn gorfod darlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm. Ar ben hynny, awgrymodd ddileu'r cyfeiriadau at etholiadau Senedd Ewrop. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod hi'n briodol cadw'r cyfeiriadau hyn nes i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei newid.
- 2.58 Roedd nifer o ymatebwyr wedi cyfeirio at y cynnig i symleiddio'r rheol ar amserlennu (Rheol 25). Roedd Global yn dadlau dros lacio'r rheol arfaethedig ar gyfer radio ymhellach er mwyn gallu amserlennu darllediadau unrhyw bryd rhwng 6am a hanner nos er mwyn “lleihau effaith fasnachol ac ariannol” darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ac osgoi “gwrandawyr yn diffodd”. Rydym yn anghytuno ac rydym o'r farn bod y ffenestr amserlennu arfaethedig o 6am i 10pm yn briodol er mwyn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i ddarlledwyr radio ar yr un pryd â pheidio â symud darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm i adegau pan fydd hi'n debyg y bydd y gynulleidfa yn is o lawer.
- 2.59 Roedd y Blaid Lafur yn dadlau bod peidio â sicrhau bod darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol neu ddarllediadau ymgyrchoedd refferendwm “ar adegau brig yn cyfyngu ar hygyrchedd at bleidiau gwleidyddol mawr a'u polisïau”. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig i “ehangu'r ffenestr ddarlledu ar deledu i 11.30pm”. Roedd y blaid o'r farn y “dylid cael gofyniad am slotiau... cymharol er mwyn peidio â chael achosion o ddarllediadau gwleidyddol pleidiau/darllediad etholiadol gan bleidiau un blaid yn cael eu dyrannu am 7pm a rhai plaid arall yn cael eu dyrannu am 11:25”.
- 2.60 Gan ein bod yn dileu'r rhestr o bleidiau mwy o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, ac y bydd y rheolau hyn yn berthnasol i nifer mwy o lawer o wasanaethau, rydym o'r farn ei bod hi'n briodol symleiddio'r gofynion amserlennu fel y nodir yn Rheol 25. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ddarlledwyr wneud penderfyniadau amserlennu mewn ffordd deg a chyson gan ystyried y dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol. Byddwn felly'n disgwyl i ddarlledwyr barhau i ddyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau sydd â lefel uwch o gefnogaeth mewn

etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol ar adegau sy'n debyg o ddenu niferoedd uwch yn hytrach nag is o wylwyr a gwrandawyr. Byddwn hefyd yn disgwyl i ddarllledwyr sicrhau bod pleidiau gwahanol yn cael darllediadau etholiadol gan bleidiau ar adegau gwahanol yn yr amserlen, er mwyn sicrhau bod negeseuon pleidiau gwahanol yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Yn benodol, petai darlledwr yn dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol yn gyson i blaid benodol ar adegau sy'n denu'r cynulleidfa oedd isaf, byddem yn gweld hyn fel rhywbeth a allai godi materion o ran gallu'r darlledwr hwnnw i sicrhau didueddrwydd dyladwy yn ystod cyfnod etholiad, a byddem yn cymryd camau yn unol â hynny.

- 2.61 Yn yr un modd â gyda'i sylwadau ynghylch y diwygiadau a gynigiwyd i Adran Chwech, mynegodd y Democratiaid Rhyddfrydol bryder ynghylch y "diffiniad amwys o 'dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol'" yn y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Rydym yn egluro sut mae Ofcom yn rhoi pwys ar ffactorau gwahanol mewn perthynas â chefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol ym mharagraff 2.32 uchod. Dywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd y dylai'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda gynnwys "meini prawf clir sydd wedi'u gosod ar gyfer faint o ddarllediadau etholiadol gan bleidiau a gaiff plaid yn unol â meini prawf gwrthrychol a thryloyw". Rydym yn anghytuno. Mae wedi bod yn un o nodweddion y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda ers tro byd eu bod yn gosod gofynion sylfaenol i bleidiau fod yn gymwys i gael darllediadau etholiadol gan bleidiau. Uwchben y lefelau sylfaenol hyn mae darlledwyr yn defnyddio disgresiwn golygyddol wrth benderfynu ar ddyrannu darllediadau etholiadol ychwanegol gan bleidiau drwy gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Nid ydym o'r farn ei bod hi'n briodol cyfyngu ar ryddid darlledwyr yn y ffordd a awgrymir gan y Democratiaid Rhyddfrydol.
- 2.62 Gofynnodd S4C i Reolau 21 a 22 o'r Rheolau arfaethedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda "bennu yn glir" ei bod yn rhaid i ddarlledwyr benderfynu ar ddyrannu darllediadau pleidiau gwleidyddol "ar sail asesiad blynyddol (12 mis), ac nad oes gofyniad i'r darlledwyr wneud asesiad ar gyfer y tri chyfnod (hydref, gaeaf a gwanwyn) ar wahân". Rydym o'r farn ei bod hi'n bosibl y byddai newidiadau sylweddol mewn lefelau cefnogaeth ar gyfer pleidiau gwleidyddol mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Felly, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol i ddarlledwyr seilio eu dyraniadau o ddarllediadau pleidiau gwleidyddol ar sail un asesiad blynyddol o lefelau cefnogaeth. Yn hytrach, rydym o'r farn y dylai'r darlledwyr prin hynny sy'n gorfod darparu darllediadau pleidiau gwleidyddol (y BBC a'r rheini sy'n dal trwyddedau Sianel 3 o dan y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda) asesu'r data perthnasol mewn ffordd ddeinamig gan ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.
- 2.63 Gofynnodd S4C hefyd i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda bennu i ba raddau maent yn berthnasol i S4C. O Dan Atodlen 12, paragraff 18 o'r Ddeddf, mae hi'n ddyletswydd ar Awdurdod S4C i lunio polisi mewn perthynas â chynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ar S4C. Wrth lunio'r polisi hwn mae'n rhaid i Awdurdod S4C ystyried safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol a Rheolau Ofcom ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda³³. Er mwyn bod yn glir, byddwn yn cynnwys y troednodyn canlynol ar ddechrau'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda:

³³ Edrychwch ar Atodlen 12, paragraff 18(5) o'r Ddeddf.

“O dan Atodlen 12, paragraff 18 o'r Ddeddf, rhaid i Awdurdod S4C baratoi a chyhoeddi polisi mewn perthynas â darllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda a'u cynnwys ar S4C. Wrth wneud hynny rhaid iddo ystyried (a) unrhyw safbwyntiau sydd wedi'u mynegi gan y Comisiwn Etholiadol a (b) unrhyw reolau sydd wedi cael eu llunio gan Ofcom mewn perthynas â darllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda”.

- 2.64 Holodd Global pam nad oedd yn rhaid i BBC Radio 3 ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau ond bod ei “gystadleuydd agosaf” Classic FM yn gorfod gwneud hynny. Wrth asesu pa rai o wasanaethau'r BBC ddylai ddarparu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm, rydym wedi ystyried gwasanaethau'r BBC yn gyfan. Wrth ystyried cyrhaeddiad cynulleidfa a darpariaeth y gwasanaethau sy'n gorfod darparu darllediadau o'r fath, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol mynnu bod y BBC yn darparu darllediadau etholiadol gan bleidiau ar BBC Radio Three hefyd.
- 2.65 Yn olaf, roedd Global a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud rhagor o bwyntiau cyffredinol am y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Holodd Global ynghylch “gwerth parhaus” y gofyniad ar wasanaethau radio cenedlaethol i ddarparu darllediadau etholiadol gan bleidiau. O dan adran 333 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Ofcom gynnwys amodau ym mhob trwydded gwasanaeth radio cenedlaethol sy'n mynnu ei bod yn rhaid cynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn y gwasanaeth. Yn ein Hadolygiad³⁴ yn 2013 o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, roeddem wedi nodi bod parhau i ddefnyddio'r rheolau hynny gyda'r tri gwasanaeth radio cenedlaethol yn fwy priodol fel mater i Senedd y DU, ac rydym yn dal o'r un farn. Rydym yn ystyried bod y gofyniad ar y gwasanaethau hyn i ddarparu darllediadau etholiadol gan bleidiau mewn Etholiadau Cyffredinol yn unig a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm mewn refferenda ar draws y DU yn gymesur ac yn rhesymol yng nghyd-destun y ddarpariaeth statudol waelodol.
- 2.66 Cyflwynodd Global a'r Democratiaid Rhyddfrydol awgrymiadau ynghylch hyd y darllediadau a nodir yn y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Roedd Global o'r farn y dylid cwtogi ar hyd y darllediadau i 1'30” ar gyfer pob “Gwasanaethau Perthnasol”, gan ddadlau y byddai darllediadau byrrach “yn ffordd fwy effeithiol o lawer” i bleidiau gyflwyno eu polisiâu ar y radio yn yr oes ddigidol. Awgrymodd y Democratiaid Rhyddfrydol ganiatáu darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol ar deledu am hyd at 4'40” neu slotiau byrrach o 1'40” a 0'40”. Rydym o'r farn ein bod wedi adolygu'r darpariaethau gwahanol sy'n ymwneud â hyd darllediadau yn llawn yn Adolygiad 2013, ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth gref sy'n mynnu ein bod yn ailystyried y mater ar hyn o bryd.
- 2.67 Wrth ystyried yr uchod i gyd, rydym o'r farn bod y diwygiadau roeddem wedi'u cynnig yn yr Ymgynghoriad yn briodol, gan ychwanegu'r ddau ddiwygiad rydym yn cyfeirio atynt ym mharagraffau 2.56 a 2.63. Mae fersiwn terfynol o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn Atodiad 1. Daw'r rheolau hyn i rym ar 22 Mawrth 2017 a byddant ar gael ar wefan Ofcom.

³⁴ Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/38116/statement.pdf

Adran 3

Penderfyniad Ofcom ar y diwygiadau i Adran Pump y Cod: didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy

Cyflwyniad

- 3.1 Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn rhoi ein penderfyniadau ar y diwygiadau roeddem wedi'u cynnig i Adran Pump y Cod.
- 3.2 Roedd y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Pump y Cod yn adlewyrchu: y dull gweithredu roeddem yn ei gynnig ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU ym maes didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy o dan y Siarter a'r Cytundeb newydd.
- 3.3 O dan Atodlen 3, paragraff 3 y Cytundeb, wrth ddarparu gwasanaethau darlledu'r BBC, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sy'n cael eu gosod gan Ofcom o dan adran 319 o'r Ddeddf, a rhaid i'r sylw yng Ngwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU ddilyn y safonau hynny i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu sy'n berthnasol.
- 3.4 Yn yr Ymgynghoriad roeddem wedi dweud, ar ôl adolygu ein dyletswyddau rheoleiddio newydd mewn perthynas â gwasanaethau'r BBC yng nghyswllt didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy, ein bod o'r farn y dylai'r rheolau yn Adran Pump hefyd fod yn berthnasol i'r BBC. Yn benodol roeddem yn cynnig bod y rheolau sy'n berthnasol i wasanaethau sydd dan drwydded i Ofcom sy'n mynnu: dylai newyddion teledu a radio gael eu cyflwyno gyda chywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy; a dylai cynnwys nad yw'n newyddion sy'n delio â materion sy'n wleidyddol neu'n ddiwydiannol sensitif a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol gael eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, hefyd fod yn berthnasol i'r BBC.
- 3.5 Roedd yn cynnig y ddau ddiwygiad canlynol i Adran Pump:
 - Hyd a lled gwasanaethau: Yn unol â'r gofyniad yn y Cytundeb y cyfeirir ato ym mharagraff 3.3 uchod, roeddem yn credu y dylai Adran Pump y Cod fod yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU yn ogystal â gwasanaethau darlledu'r BBC. Yn benodol, roeddem yn cynnig diwygio Rheol 5.2 i egluro sut y byddai'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC³⁵; a
 - Defnyddio Adran Pump gyda gwasanaethau radio'r BBC nad ydyn nhw'n rhai cenedlaethol³⁶: Mae Adran 320(1)(c) o'r Ddeddf yn mynnu nad yw

³⁵ Roedd y Rheol 5.2 newydd roeddem yn ei gynnig yn datgan: "Fel arfer dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro

ar yr awyr yn gyflym (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU, eu cywiro yn gyflym). Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU, dylid eu gwneud yn amlwg i wylwyr mewn ffordd briodol)."

³⁶ hy gwasanaethau sy'n cael eu darlledu i'w derbyn mewn ardal neu ardal leol benodol yn y DU.

gwasanaethau radio nad ydyn nhw'n rhai cenedlaethol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom yn rhoi amlygrwydd amhriodol yn y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth i safbwyntiau a barn unigolion neu gyrff penodol ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yn Rheol 5.13³⁷ y Cod sy'n ystyried "rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth...o'u cymryd gyda'i gilydd". Serch hynny, mae'r Cytundeb yn darparu³⁸ bod holl wasanaethau radio'r BBC yn cael eu trin fel gwasanaethau radio cenedlaethol at ddibenion adran 320 o'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu na fydd adran 320(1)(c) o'r Ddeddf yn berthnasol i unrhyw rai o wasanaethau'r BBC. Roeddem felly'n cynnig egluro y byddai Rheolau 5.5 i 5.12 yn berthnasol i holl wasanaethau radio'r BBC yn ogystal â gwasanaethau teledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU, ac na fyddai Rheol 5.13 y Cod yn berthnasol i unrhyw rai o wasanaethau darlledu'r BBC na gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU.

- 3.6 Yn yr Ymgynghoriad, roeddem hefyd wedi dweud ein bod yn bwriadu cyhoeddi ar wefan Ofcom Arweiniad wedi'i ddiweddarau i Adran Pump y Cod a fyddai'n adlewyrchu ein penderfyniadau mewn perthynas â'r diwygiadau a gynigir uchod, yn ogystal â phenderfyniadau mwy diweddar a gyhoeddwyd ym maes didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.
- 3.7 Mae crynodeb manwl o gyflwyniadau'r ymatebwyr ynghylch y diwygiadau roeddem yn eu cynnig i Adran Pump wedi'u nodi yn: Atodiad 4, paragraffau A4.48 i A4.58.

Ymateb a phenderfyniad Ofcom ynghylch y diwygiadau a oedd yn cael eu cynnig i Adran Pump

- 3.8 Cafodd ein cynigion eu cefnogi gan: ITN, y Blaid Lafur, Plaid Genedlaethol yr Alban, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig ac unigolyn a ymatebodd, Fred Weil. Roedd ITV/STV yn cefnogi ein diwygiadau arfaethedig "i raddau helaeth" ond roeddent yn awgrymu y dylid rhoi'r diwygiadau arfaethedig a oedd yn cyfeirio at wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU yn Rheol 5.2 fel troednodyn. Fodd bynnag rydym o'r farn ei bod hi'n well cadw geiriad y rheol hon fel y nodir yn yr Ymgynghoriad i sicrhau eglurder ynghylch ei ffurf a'i hyd a'i lled.
- 3.9 Roedd nifer o ymatebwyr (y Gynghrair Cefn Gwlad, yr IBT, y VLV a Lawyers for Israel) wedi mynegi pryder bod swyddogaethau newydd Ofcom mewn perthynas â'r BBC ond yn ymestyn i reoleiddio didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy ar faterion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu

³⁷ Mae Rheol 5.13 yn datgan: "Ni ddylai darlledwyr roi amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau pobl neu gyrff penodol ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun trafod a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn yr holl raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) o'u cymryd gyda'i gilydd". Mae'r Cod yn egluro bod y rheol hon yn berthnasol i "wasanaethau radio lleol (yn cynnwys gwasanaethau radio cymunedol), gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol (yn cynnwys gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy radio".

³⁸ Mae Atodlen 3, paragraff 3 y Cytundeb yn datgan: "Wrth ddarparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Cod Safonau Ofcom"). At ddibenion y gofynion yn y Cod Safonau sy'n rhoi grym i adran 320 o'r Ddeddf honno (gofynion didueddrwydd dyladwy arbennig), bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n wasanaethau radio yn cael eu trin fel gwasanaethau radio cenedlaethol".

ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi o dan Ymddiriedolaeth y BBC, yr oedd gan holl gynnwys y BBC ddyletswydd i fod yn ddigon diduedd ac yn ddigon cywir. Roeddent hefyd yn dweud bod gan y BBC safle unigryw a bod gan gynulleidfaeodd, fel y rhai sy'n talu ffi'r drwydded, ddisgwyliadau gwahanol o gynnwys y BBC. Fodd bynnag, fel y mae'r ymatebwyr hyn yn cydnabod, mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu, wrth ddarparu gwasanaethau darlledu'r BBC, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sy'n cael eu gosod o dan adran 319 o'r Ddeddf, a rhaid i'r sylw yng Ngwasanaethau Rhaglenni Ar-awad Cyhoeddus y BBC yn y DU ddilyn y safonau hynny i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu sy'n berthnasol. Y Llywodraeth yn y pen draw sy'n gyfrifol am hyd a lled swyddogaethau Ofcom.

- 3.10 Dywedodd yr IBT a'r VLV y dylid rheoleiddio'r World Service yn allanol ym meysydd didueddrwydd a chywirdeb. O dan gymal 33 o'r Cytundeb, y BBC, ac nid Ofcom, fydd yn gyfrifol am sicrhau safonau golygyddol y World Service. Yn yr un modd, roedd yr IBT a'r VLV yn dadlau y dylai holl gynnwys ar-lein y BBC fod yn destun rheoleiddio allanol. O dan gymal 60 o'r Cytundeb, bydd yn rhaid i Ofcom "ystyried a rhoi barn, gan gynnwys argymhellion maent yn credu sy'n briodol, ynghylch a ydy'r BBC wedi dilyn y canllawiau golygyddol perthnasol ar gynnwys deunydd ar-lein yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU"³⁹ a rhaid iddo fynd i gytundeb gyda'r BBC gan wneud darpariaeth ar gyfer hyn.
- 3.11 Nododd yr IBT fod Rheol 2.2 y Cod yn darparu na chaiff cynnwys ffeithiol gamarwain y gynulleidfa'n sylweddol ond "nad yw'n rheoleiddio am ddiueddrwydd mewn cynnwys o'r fath". Roedd y Gynghrair Cefn Gwlad o'r farn efallai fod angen newidiadau i Adran Dau er mwyn ystyried gofynion y Siarter newydd⁴⁰. Rydym yn credu y gallai Rheol 2.3⁴¹ fod yn berthnasol mewn amgylchiadau lle gellid rhoi cynnwys sy'n achosi tramgwydd mewn cyd-destun drwy ddarparu safbwyntiau gwahanol neu safbwyntiau sy'n herio neu'n gwrthbrofi'r cynnwys sy'n achosi tramgwydd. Rydym hefyd yn nodi bod gan Ofcom ddyletswydd o dan erthygl 51 o'r Siarter i adolygu, o bryd i'w gilydd, i ba raddau y mae'r BBC yn hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus, fel y rheini a nodir gan y Gynghrair Cefn Gwlad, a phan fo'n briodol rhaid i ni gynnal adolygiadau ychwanegol gan roi sylw i unrhyw fater penodol sy'n peri pryder.
- 3.12 Roedd yr VLV yn dadlau bod adran 319 o'r Ddeddf "yn llai manwl o lawer na Chanllawiau Golygyddol y BBC... ac y gallai hyn nid yn unig arwain at ddryswch, ond ei fod yn debyg o arwain at reoleiddio'r BBC yn llai llym a allai fod yn niweidiol i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded". Rydym yn anghytuno. Mae'r rheolau, yr arweiniad a'r penderfyniadau rydym wedi'u cyhoeddi yn nodi ac yn egluro'n fanwl y safonau rydym yn eu defnyddio ac mae gan Ofcom enw da am orfodi cadarn a thrwyadl.
- 3.13 Roedd y Gynghrair Cefn Gwlad yn gobeithio y byddai Ofcom yn adolygu darpariaeth wledig y BBC, a dywedodd yr IBT a'r VLV y byddai arnynt eisiau i Ofcom gynnal adolygiadau didueddrwydd dyladwy o gynnwys y BBC. Rydym yn cyfeirio ym

³⁹ Mae Cymal 60(3) yn darparu nad yw deunydd ar-lein yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu darparu mewn gwasanaeth rhaglenni ar-awad.

⁴⁰ Nododd y Gynghrair Cefn Gwlad fod y Siarter yn datgan: "Dylai'r BBC gynrychioli a phortredu yn gywir ac yn ddiwyll fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwyllianau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas".

⁴¹ Mae Rheol 2.3 yn datgan: "Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd wedi'i gyfiawnhau gan y cyd-destun [...]."

mharagraff 3.11 at ddyletswyddau Ofcom i gynnal adolygiadau o dan erthygl 51 o'r Siarter.

- 3.14 Roedd y Gynghrair Cefn Gwlad, yr IBT a'r VLV hefyd yn poeni ynghylch sut byddai gwaith rheoleiddio Ofcom o'r BBC o dan Adran Pump yn ffitio o dan ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC. Wrth i Ofcom baratoi i ysgwyddo ei gyfrifoldebau rheoleiddio newydd mewn perthynas â'r BBC, rydym yn llunio 'Fframwaith Gweithredu' ar gyfer y BBC a fydd yn edrych ar berfformiad, safonau cynnwys a chystadleuaeth. Ym maes safonau cynnwys, yn ogystal ag adolygu'r rheolau yn Adrannau Pump a Chwech y Cod, rydym wedi ymgynghori ynghylch: diwygiadau i weddill y Cod i gynnwys gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU; a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC. Bydd ein Datganiadau yn y meysydd hyn yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2017.
- 3.15 Dywedodd y Blaid Geidwadol "pan fydd cywiriad wedi cael ei wneud i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU neu gynnwys gwasanaethau darlledu'r BBC, dylid hefyd tynnu sylw at gywiriad o'r fath a dylid ei nodi ar unrhyw dudalen we BBC Ar-lein cysylltiedig sy'n cynnal neu sydd â dolen i'r cynnwys ar-lein hwnnw". Ychwanegodd na ddylai cywiriadau o'r fath "gael eu claddu mewn gwefan ar wahân... neu ni fydd y cywiriad yn ddigon amlwg ac ni fyddai'r cywiriad yn cael ei 'gyfeirio'n briodol at wylwyr'". Ni fydd cynnwys deunydd ar-lein y BBC sydd â dolen i wasanaethau darlledu'r BBC ac allbwn gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU yn rhwym wrth y Cod. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 3.10 uchod, bydd deunydd ar-lein y BBC yn destun trefniant rhwng y BBC ac Ofcom.
- 3.16 Roedd unigolyn a ymatebodd, Dr Sally Broughton Micova, yn gwrthwynebu'r cyfeiriad at academydd yn y diffiniad o "safbwynt personol" ac "awdurol"⁴² yng nghyd-destun Rheol 5.10 y Cod, oherwydd ym marn yr ymatebydd yma bod y cyfeiriad yn "tanseilio canfyddiadau ymchwil academiaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth". Rydym yn anghytuno â'r ddadl hon, oherwydd bod y cyfeiriad at "academyddion" yn ddim ond un enghraifft o gyfrannwr at raglen a allai roi "safbwynt 'awdurol' ystyriol...gydag arbenigedd proffesiynol".
- 3.17 Roedd nifer o ymatebwyr wedi codi agweddau gwahanol o'r Arweiniad a gyhoeddwyd gan Ofcom ar Adran Pump.
- 3.18 Cododd yr IBT bryder ynghylch paragraff 1.22⁴³ o Arweiniad Ofcom i Adran Pump a holodd a oedd y darn hwn o Arweiniad yn golygu "nad oedd angen i ddarlledwyr sydd wedi'u trwyddedu yn y DU ond sy'n trawsyrro y tu allan i'r DU roi sylw i faterion nad ydynt yn ymwneud â'r DU mewn ffordd sy'n ddigon diduedd". Mae Ofcom yn

⁴² Mae'r Cod yn diffinio "safbwynt personol" ac "awdurol" fel a ganlyn: "Mae rhaglenni 'barn personol' yn rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol. Mae rhaglenni barn personol yn gallu amrywio o fynegiad plaen o farn bleidiol iawn, er enghraifft gan rywun sy'n aelod grŵp sy'n ymgyrchu ar y mater, i farn "awdurol" ystyriol gan newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigaeth mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn un sydd yn y brif ffrwd".

⁴³ Mae Paragraff 1.22 yn datgan: "Mae'r rheolau 'didueddrwydd arbennig' (Rheolau 5.4 i 5.13 gan gynnwys y rheini) yn berthnasol i faterion cenedlaethol a rhyngwladol, er efallai y bydd y didueddrwydd a roddir i fater heb fod yn un cenedlaethol yn is. Er mwyn rhoi enghraifft, mae disgwyl i ddarlledwyr ddefnyddio rheolau didueddrwydd i bwnc fel Etholiadau Arlywyddol America. Ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau gan Ofcom nad ydynt yn darlledu i'r DU, mae'r gofynion o ran didueddrwydd yn dal yn berthnasol ond efallai y byddant yn is gan ddibynnu ar y pwnc a'r wlad wreiddiol lle caiff yr allbwn ei dderbyn".

tanlinellu bod y gofynion didueddrwydd dyladwy yn berthnasol i'r holl gynnwys newyddion a heb fod yn newyddion sy'n delio â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae hyn yn cynnwys deunydd o'r fath ar wasanaethau trwyddedig Ofcom a ddarllidir i wledydd ar wahân i'r DU. Fodd bynnag, gall y dull gweithredu o ran didueddrwydd dyladwy amrywio yn ôl ffactorau yn ymwneud â'r cyd-destun fel y math o raglen a sianel, a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa.

3.19 Roedd Lawyers for Israel hefyd wedi awgrymu diwygiadau i God Ofcom neu'r Arweiniad roedd wedi'i gyhoeddi ar gyfer Adran Pump. Fodd bynnag, ni chawsom ein darbyllo bod y rhain yn angenrheidiol am y rhesymau canlynol:

- mewn perthynas ag awgrym yr ymatebydd hwn y dylai'r dogfennau “dynnu sylw at y ffaith y disgwylir safon uchel gan y BBC yng nghyswllt ei arian cyhoeddus drwy ffi'r drwydded a'i statws fel gwasanaeth darlledu cyhoeddus”, mae Ofcom yn tanlinellu y bydd yn ystyried ffactorau cyd-destunol, fel disgwyliadau cynulleidfaoedd, wrth ddefnyddio Adran Pump gyda'r BBC;
- roedd Lawyers for Israel hefyd yn awgrymu y dylai'r dogfennau nodi “ei bod yn rhaid i bob darlledwr fod yn arbennig o ofalus eu bod yn cyflawni cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion lle gallai sylw nad yw'n gywir ac yn ddiuedd hybu hiliaeth”. Mae'r Arweiniad⁴⁴ rydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer Adran Tri o'r Cod yn rhybuddio darlledwyr yn benodol ynghylch y gofal mae angen ei gymryd mewn newyddion a rhaglenni newyddion a materion cyfoes o ran cymell, casineb ar lafar a/neu drin unigolion neu grwpiau yn ymosodol neu'n ddirfiol; ac
- roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn awgrymu y dylai'r dogfennau nodi “ei bod yn rhaid i bob darlledwr fod yn arbennig o ofalus eu bod yn cyflawni cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â phynciau lle gallai ffynonellau gwybodaeth fod yn annibynadwy”. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod ein Harweiniad i Adran Pump eisoes yn egluro bod angen i ddarlledwyr fod yn ofalus⁴⁵ mewn perthynas â'r gofyniad i newyddion fod yn ddigon cywir.

3.20 Roedd Dr Sally Broughton Micova yn dadlau yn ystod Refferendwm UE 2016 fod y BBC wedi “methu rhoi digon o wybodaeth i'r cyhoedd” ac wedi “methu herio gwybodaeth anghywir yn ddigonol”. Dywedodd y dylai Arweiniad Ofcom ar Adran Pump egluro na ddylai darlledwyr “ganiatáu darlledu celwyddau ac anwireddu heb herio hynny” a phan fod “tystiolaeth glir a llethol yn pwyntio at fod rhywbeth yn wir, nid yw'n safbwynt i ddadlau yn ei gylch”. Rydym yn ystyried bod pwynt yr ymatebydd yn codi materion sy'n ymwneud â chywirdeb a didueddrwydd, a bod ein rheolau, ein Harweiniad a'r penderfyniadau rydym wedi'u cyhoeddi yn delio â hyn yn ddigonol. Er enghraifft, rhaid i gynnwys newyddion fod yn ddigon cywir (Rheol 5.1 o'r Cod), a rhaid i gynnwys ffeithiol beidio â charmarwain y gynulleidfa yn sylweddol (er mwyn achosi niwed neu dramgwydd) (o dan Reol 2.2 o'r Cod). Ar ben hynny, mae paragraff 1.10 o'r Arweiniad mae Ofcom wedi'i gyhoeddi ar gyfer Adran Pump yn datgan:

⁴⁴ Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/24258/section_3_2016.pdf

⁴⁵ Er enghraifft, mae paragraff 1.9 yr Arweiniad yn datgan: “Dylai darlledwyr fod yn ofalus cyn gwneud unrhyw ddehongliadau neu ddatganiadau clir am faterion dadleuol, a allai ddibynnu ar awgrym a bod yn agored i'w ddehongli mewn gwahanol ffyrdd ee canfyddiadau ystadegol neu ddatganiadau amwys a wneir gan wleidyddion”.

“...Nid oes gofyniad ar ddarllledwyr i ddarparu safbwynt amgen ym mhob stori newyddion neu ar bob mater yn y newyddion. Fodd bynnag, rhaid i bob stori newyddion cael ei hadrodd gyda chywirdeb dyladwy a rhaid ei chyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, hy didueddrwydd sy'n ddigonol neu'n briodol i'r pwnc.”

Ar ben hynny, mae'r diffiniad o ddiueddrwydd dyladwy yn Adran Pump yn egluro: “Nid yw “didueddrwydd dyladwy” yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl”.

- 3.21 Dywedodd Dr Sally Broughton Micova hefyd efallai fod angen rhagor o arweiniad ar ddarllledwyr ynghylch “pryd dylent ystyried bod rhywbeth yn fater dadleuol lle ceir nifer o ‘safbwyntiau’ ynghylch mater dadleuol a phryd mae'r cydbwysedd o dystiolaeth ddibynadwy yn dderbyniol”. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod ein Rheolau, ein Harweiniad a'r penderfyniadau rydym wedi'u cyhoeddi eisoes yn egluro y dylai darllledwyr ystyried ystod a natur y safbwyntiau a allai fodoli ar unrhyw fater penodol sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu fater sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Er enghraifft, mae'r Arweiniad rydym wedi'i gyhoeddi ar gyfer Adran Pump yn nodi ym mharagraff 1.12:

“Mewn adroddiadau am eitemau newyddion penodol, dylai'r darllledwyr ystyried yr holl ffeithiau perthnasol, gan gynnwys natur y ddarpariaeth ac a oes safbwyntiau gwahanol ar eitem benodol...”;

Ac ym mharagraff 1.25:

“Wrth ystyried a ydy mater yn un sy'n 'destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol' neu os yw wedi'i setlo'n gyffredinol, dylai darllledwyr ystyried ffactorau perthnasol. Gall y rhain gynnwys, fel sy'n briodol, adroddiadau annibynnol a gomisiynwyd gan, er enghraifft, Senedd y DU ac a oes unrhyw fater wedi cael ei sefydlu'n wyddonol ac nad yw'n ymddangos ei fod yn cael ei herio gan, er enghraifft, pleidiau gwleidyddol sefydledig neu sefydliadau gwyddonol domestig neu ryngwladol o bwys...”.

- 3.22 Yn olaf, gan nodi'r “ddadl ynghylch yr honiadau a wnaed gan y naill ochr a'r llall” yn Refferendwm yr UE, awgrymodd yr Athro Ivor Gaber ddiwygiadau i baragraffau 1.9 a 1.10 yr Arweiniad a gyhoeddwyd gan Ofcom i Adran Pump. Er enghraifft, awgrymodd yr ymatebydd y dylai'r Arweiniad: gyfeirio at ddarllledwyr yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chyflenwi gan “sefydliadau cydnabyddedig sy'n gwirio ffeithiau”; a datgan hefyd nad oes angen i ddarllledwyr ddarparu safbwyntiau amgen mewn newyddion pan fydd “gwybodaeth a ddaw o ffynhonnell awdurdodol yn cael ei herio gan wybodaeth o ffynonellau nad ydynt wedi cael eu profi”. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod hi'n briodol i Ofcom ragnodi'r ffynonellau y dylai darllledwyr eu defnyddio, sy'n fater o farn olygyddol, a bod penderfynu pa rai sydd yn: “sefydliadau cydnabyddedig sy'n gwirio ffeithiau”, “gwybodaeth a ddaw o ffynonellau awdurdodol” a “ffynonellau heb eu profi” yn ymarfer annadleuol.
- 3.23 Wrth ystyried yr uchod i gyd, rydym o'r farn bod y diwygiadau roeddem wedi'u cynnig yn yr Ymgynghoriad yn briodol. Mae fersiwn terfynol o Adran Pump yn Atodiad 2. Daw'r rheolau hyn i rym ar 22 Mawrth 2017 a byddant ar gael ar wefan Ofcom, yn yr un modd â'r Arweiniad a fydd yn cael ei ddiweddarau ar gyfer Adran Pump ac rydym yn cyfeirio ato ym mharagraff 3.6 uchod.

Atodiad 1

Y rheolau terfynol ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda

Cyflwyniad

1. Mae Adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf")⁴⁶ yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a Darllediadau Ymgyrchoedd Refferendwm ar ran pleidiau gwleidyddol cofrestredig a sefydliadau refferendwm dynodedig⁴⁷ yn cael eu cynnwys ym mhob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig (Sianel 3 ranbarthol⁴⁸, Sianel 4 a Sianel 5), pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (hy masnachol ar draws y DU), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol (Classic FM, Talksport ac Absolute Radio AM) ("y Trwyddedigion").
2. Mae Cytundeb y BBC yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU fel mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol. Mae'r rheolau hyn hefyd yn berthnasol i wasanaethau canlynol y BBC yn unol â Chytundeb y BBC. BBC One; BBC Two; BBC Radio Two; BBC Radio Four; BBC London Radio; BBC Radio Scotland; BBC Radio Nan Gaidheal⁴⁹; BBC ALBA; BBC Radio Wales; BBC Radio Cymru⁵⁰; BBC Radio Foyle; a BBC Radio Ulster ("Gwasanaethau'r BBC").
3. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Rheolau a wnaeth Ofcom yn unol ag adran 33 o'r Ddeddf a Chytundeb y BBC. Mae'r Rheolau'n adlewyrchu'r gofynion sylfaenol mae'n rhaid i Drwyddedigion a Gwasanaethau'r BBC ("y Gwasanaethau Perthnasol") eu dilyn er mwyn penderfynu ar hyd, amlder, dyraniad a/neu amserlennu unrhyw ddarllediadau pleidiau gwleidyddol neu ymgyrchoedd refferendwm. Ni fwriedir iddyn nhw lyffethair disgrisiwn Gwasanaethau Perthnasol i fynd dros y gofynion sylfaenol hyn.
4. Yn nhermau'r Rheolau hyn, mae'r penderfyniad ynghylch union hyd, amlder, dyraniad a/neu amseriad y darllediadau sy'n cael eu cynnig i bleidiau gwleidyddol/sefydliadau dynodedig yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaethau Perthnasol yn y lle cyntaf. Pan fydd Gwasanaethau Perthnasol yn gwneud penderfyniadau o'r fath, dylent roi gwybod i'r blaid wleidyddol/sefydliad dynodedig dan sylw yn ysgrifenedig yn brydlon, gan roi'r sail dros y penderfyniad perthnasol, a gan alluogi'r blaid/sefydliad hwnnw i gyflwyno rhagor o sylwadau i'r Gwasanaeth

⁴⁶ O dan Atodlen 12, paragraff 18 o'r Ddeddf, rhaid i Awdurdod S4C baratoi a chyhoeddi polisi mewn perthynas â darllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda a'u cynnwys ar S4C. Wrth wneud hynny rhaid iddo ystyried (a) unrhyw safbwyntiau sydd wedi'u mynegi gan y Comisiwn Etholiadol a (b) unrhyw reolau sydd wedi cael eu llunio gan Ofcom mewn perthynas ag unrhyw ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda.

⁴⁷ Edrychwch ar adran 333(3) o'r Ddeddf ac adrannau 37 ac 127 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

⁴⁸ Heb gynnwys Channel TV; nid yw'r adran hon o'r Ddeddf yn berthnasol yn Ynysoedd y Sianel.

⁴⁹ Yn darlledu mewn Gaeleg.

⁵⁰ Yn darlledu mewn Cymraeg.

Perthnasol os ydynt yn penderfynu gwrthwynebu unrhyw ran o'r penderfyniad.

5. Os bydd unrhyw anghydfod yn dal heb ei ddatrys rhwng unrhyw Wasanaeth Perthnasol a'r blaidd wleidyddol/sefydliad dynodedig, ynghylch hyd, amllder, dyraniad a/neu amserlennu darllediadau, mae modd i'r blaidd wleidyddol/sefydliad dynodedig neu'r Gwasanaeth Perthnasol ei gyfeirio at Ofcom am benderfyniad o dan y Rheolau hyn. I'r diben hwn dylai'r Gwasanaethau Perthnasol a'r pleidiau gwleidyddol/sefydliadau dynodedig ddilyn Gweithdrefnau Ofcom ar gyfeirio a phenderfynu ar anghydfodau o dan y Rheolau hyn.
6. Mae Adran 6 Chwech o God Darlledu Ofcom⁵¹ ("y Cod") yn darparu ei bod yn rhaid i ddarllediadau o dan y Rheolau hyn gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod (er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd) er mai'r pleidiau gwleidyddol (neu'r sefydliadau refferendwm dynodedig) perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys darllediadau fel rheol. Dylai trwyddedigion ddefnyddio'r Rheolau hyn yn unol â darpariaethau perthnasol y Cod.
7. Caiff y Gwasanaethau Perthnasol eu cynghori i gyhoeddi arweiniad ynghylch pa mor ddefnyddiol ydy'r cynnwys a materion technegol. Caiff darlledwyr eu cynghori i geisio indemniad cyfreithiol gan bleidiau yn erbyn difenwad, hawlfraint a risgiau cyfreithiol tebyg. Os defnyddir unrhyw ddarn o ffilm Seneddol dylai hynny ddilyn rheolau'r Senedd ar ddefnyddio eitemau o'r fath.

Gwasanaethau sy'n cynnwys darllediadau

8. Bydd darllediadau etholiadau cyffredinol yn cael eu darlledu gan yr holl Wasanaethau Perthnasol a enwir uchod (ac eithrio trwyddedigion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, BBC Two, BBC Radio Two, BBC Radio Four, BBC Radio London a BBC ALBA). Bydd darllediadau ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn cael eu darlledu gan wasanaethau rhanbarthol Sianel 3, Sianel 5, a BBC One.
9. Bydd darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu darlledu gan yr holl Drwyddedigion a enwir uchod (ac eithrio trwyddedigion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol) a BBC One, BBC Two, BBC Radio Two, BBC Radio Four yn achos refferendwm yn y DU. Bydd darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu darlledu gan y trwyddedai Sianel 3 rhanbarthol perthnasol, BBC One, a gan BBC Radio Scotland, BBC Radio Nan Gaidheal, BBC ALBA, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Foyle a BBC Radio Ulster fel sy'n berthnasol yn achos refferenda yn y gwledydd/rhanbarthau.
10. Ar ben hynny bydd y trwyddedai Sianel 3 rhanbarthol⁵² a BBC One hefyd yn darlledu: darllediadau etholiadau lleol yn y gwledydd/rhanbarthau⁵³ hynny yn y DU lle cynhelir etholiadau o'r fath; darllediadau yn y gwledydd/rhanbarthau perthnasol ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, Cynulliad Gogledd

⁵¹ Mae'r Cod Darlledu ar gael yn <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code>

⁵² At ddibenion darllediadau etholiadol gan bleidiau a ddarlledir mewn perthynas ag etholiadau yn yr Alban, y trwyddedigion Sianel 3 rhanbarthol perthnasol ydy'r rheini ar gyfer y rhanbarthau canlynol: Canol yr Alban; Gogledd yr Alban; a'r Ffin.

⁵³ Ni fydd yn rhaid i BBC Two ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer etholiadau lleol Lloegr.

Iwerddon; a darllediadau ar gyfer yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Llundain a Maer Llundain⁵⁴. Bydd y trwyddedai Sianel 3 rhanbarthol a BBC One yn darlledu darllediadau gwleidyddol pleidiau ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn dymhorol (fel y nodir yn Rheol 21).

11. Bydd BBC One, BBC Radio Scotland, BBC Radio Nan Gaidheal, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Foyle a BBC Radio Ulster yn darlledu darllediadau yn y gwledydd/rhanbarthau perthnasol ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.
12. Bydd trwyddedigion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol yn darlledu: darllediadau etholiad lleol yn y gwledydd/rhanbarthau hynny o'r DU lle caiff etholiadau o'r fath eu cynnal. Bydd y trwyddedai gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ar gyfer Llundain a BBC Radio London hefyd yn darlledu darllediadau ar gyfer etholiadau Cynulliad Llundain a Maer Llundain⁵⁵.

Pleidiau gwleidyddol / Sefydliadau Refferendwm Dynodedig

13. Caiff darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau gwleidyddol pleidiau ond eu dyrannu i bleidiau gwleidyddol sydd wedi cael eu cofrestru gan y Comisiwn Etholiadol. Caiff darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ond eu dyrannu i sefydliadau sydd wedi cael eu dynodi gan y Comisiwn Etholiadol.

Dyrannu darllediadau

Darllediadau etholiadol gan bleidiau

14. Cyn Etholiad Cyffredinol, ac yn achos etholiadau eraill pan fydd hynny'n briodol, dylid cynnig i bob un o'r pleidiau cofrestredig (yn amodol ar Reolau 15 a 16) un darllediad etholiadol gan bleidiau neu ragor, a'r Gwasanaeth Perthnasol fydd yn penderfynu ar hyd y gyfres a gynigir i blaid benodol. Ar ben hynny, mae'n rhaid i Channel 4 a Channel 5 ill dau gynnig un darllediad etholiadol gan bleidiau neu fwy i Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru. Ym mhob achos, dylid penderfynu ar nifer y darllediadau etholiadol gan bleidiau gan ystyried amgylchiadau etholiad penodol, y wlad lle caiff ei gynnal, a chefnogaeth y blaid unigol mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol yn y wlad honno (edrychwch ar Reol 16).
15. Dylai pleidiau cofrestredig fod yn gymwys i gael darllediad etholiadol gan bleidiau os ydynt yn sefyll mewn un rhan o chwech neu ragor o'r seddi sydd ar gael mewn etholiad yn achos etholiad cyntaf i'r felin, sawl etholaeth fel Etholiad Cyffredinol. Ar gyfer systemau etholiadau cynrychiolaeth gyfrannol (fel Etholiadau Senedd Ewrop), dylid pennu'r gofyniad cymhwyso sylfaenol ar gyfer dyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, yn rhesymol ac yn deg ar gyfer pob etholiad, yn ôl meini

⁵⁴ Ni fydd yn rhaid i'r trwyddedai Sianel 3 perthnasol, BBC One na BBC Two ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau yng nghyswllt: Etholiadau maerol (ac eithrio Llundain); etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; is-etholiadau o unrhyw fath; etholiadau Cyngor Plwyf yn Lloegr; etholiadau Cyngor Cymuned yn yr Alban; ac etholiadau Cyngor Cymuned yng Nghymru.

⁵⁵ Ni fydd yn rhaid i drwyddedigion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ddarlledu darllediadau etholiadol gan bleidiau yng nghyswllt: Etholiadau Cyffredinol; Etholiadau Senedd Ewrop; etholiadau Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon; Etholiadau maerol (ac eithrio Llundain); etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; is-etholiadau o unrhyw fath; etholiadau Cyngor Plwyf yn Lloegr; etholiadau Cyngor Cymuned yn yr Alban; ac etholiadau Cyngor Cymuned yng Nghymru.

prawf sy'n ystyried y system bleidleisio benodol, nifer y seddi sydd ar gael yn yr etholiad, nifer yr etholaethau/rhanbarthau, a nifer yr ymgeiswyr a enwebwyd gan y blaid.

16. Dylai Gwasanaethau Perthnasol ystyried dyrannu darllediadau etholiadol i bleidiau cofrestredig (sy'n diwallu'r meini prawf yn Rheol 15) os ydy tystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu mewn gwlad/ardal etholiadol berthnasol yn golygu y byddai hi'n briodol gwneud hynny.
17. Wrth benderfynu ar ddyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau, dylid ystyried pedair gwlad y DU ar wahân.
18. Yn unol â Rheolau 8 i 12 uchod, bydd pleidiau sy'n gymwys i gael o leiaf un darllediad etholiadol gan bleidiau yn un o wledydd Lloegr, yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon yn cael cynnig darllediadau etholiadol gan bleidiau ar y trwyddedai Sianel 3 a Gwasanaeth(au) BBC perthnasol yn rhanbarthau priodol y gwledydd hynny.
19. Bydd pleidiau sy'n gymwys i gael darllediadau etholiadol gan bleidiau ym mhob un o'r tair gwlad Lloegr, yr Alban a Chymru hefyd yn cael cynnig darllediad etholiadol gan bleidiau ar Sianel 4 (adeg Etholiad Cyffredinol), Sianel 5 (adeg Etholiad Cyffredinol ac Etholiad Ewropeaidd) a gwasanaethau radio analog ar draws y DU (adeg Etholiad Cyffredinol) (ar yr amod bod y darlledwyr hyn yn darlledu'r gyfres berthnasol o ddarllediadau' edrychwch ar Reolau 8 i 12 uchod). Ni chaiff darllediad etholiadol gan bleidiau fod â'r diben o hyrwyddo unrhyw ganlyniad penodol i refferendwm.
20. Pan fydd yn rhaid i drwyddedai gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol ddarlledu darllediad etholiadol gan bleidiau o ganlyniad i Reol 12, bydd y trwyddedigion gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol yn dangos yr un darllediad etholiadol gan bleidiau â'r trwyddedai Sianel 3 perthnasol.

Darllediadau pleidiau gwleidyddol / Darllediadau ymgyrchoedd refferendwm

21. Ym mhob un o wledydd y DU, cynigir un neu ragor o ddarllediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau dros gyfnod o 12 mis os:
 - oes gan blaid un sedd neu ragor yn y wlad honno mewn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol⁵⁶; ac
 - mae tystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu yn y wlad honno'n golygu y byddai'n briodol gwneud hynny.
22. Bydd pleidiau ym Mhrydain Fawr (yn amodol ar Reol 21) yn cael cynnig un darllediad pleidiau gwleidyddol ym mhob un o'r tri chyfnod canlynol: Hydref; Gaeaf;

⁵⁶ Seneddau a chynulladau perthnasol:

- Tŷ'r Cyffredin;
- Senedd yr Alban;
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Cynulliad Gogledd Iwerddon;
- Senedd Ewrop.

a Gwanwyn, Bydd pleidiau yng Ngogledd Iwerddon (yn amodol ar Reol 21) yn cael cynnig un neu ddau darllediad gwleidyddol yn y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Mawrth (heb gynnwys mis Rhagfyr). Ni ddylid darlledu unrhyw ddarllediadau pleidiau gwleidyddol yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

23. Dyrennir cyfres o ddarllediadau ymgyrchoedd refferendwm i bob sefydliad refferendwm dynodedig cyn pob refferendwm. Dylai'r dyraniad fod yn gyfartal i bob sefydliad refferendwm.

Hyd darllediadau

24. Caiff pleidiau a sefydliadau dynodedig ddewis hyd o 2'40", 3'40" neu 4'40" ar deledu. Ar gyfer radio, caiff pleidiau a sefydliadau dynodedig ddewis unrhyw hyd, hyd at 2'30".

Amserlennu darllediadau

25. Rhaid i ddarllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm gael eu darlledu rhwng 5.30pm a 11.30pm.
26. Rhaid i ddarllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ar y radio gael eu darlledu rhwng 6.00am a 10.00pm.

Atodiad 2

Adran Pump ac Adran Chwech Terfynol y Cod

A2.1 Mae Ofcom wedi ymgynghori yn ddiweddar ynghylch y diwygiadau arfaethedig i weddill y Cod. Mewn perthynas â'r BBC, bydd yr adrannau cyflwyno i'r Cod yn egluro bod y Cod yn berthnasol i gynnwys radio a theledu (ar wahân i'r World Service), ac i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU, oni nodir yn glir fel arall. Byddant yn darparu bod "darlledwr" yn cynnwys y BBC fel darlledwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU; ac mae "darlledu" a "darllediad" yn cynnwys gwneud rhaglenni sydd ar gael ar Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU. Wrth ddefnyddio'r Cod gyda Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU, dylid ystyried natur ar-alwad y gwasanaeth.

Adran Pump: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(c) a (d), 319(8) ac adran 320 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Siarter a Chytundeb y BBC ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

Egwyddorion

Sicrhau y bydd newyddion, ar ba bynnag ffurf, yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

Sicrhau y cydymffurfir â gofynion arbennig y Ddeddf o ran didueddrwydd.

Rheolau

Ystyr "didueddrwydd dyladwy":

Mae "dyladwy" yn oledfiad pwysig i'r cysyniad o ddiueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi'r un amser ar gyfer pob barn neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Gall yr ymagwedd at ddiueddrwydd dyladwy amrywio yn ôl natur y testun, y math o raglen a sianel, disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran cynnwys, a'r graddau y dangosir natur y cynnwys a'r ymagwedd i'r gynulleidfa. Mae cyd-destun, fel y mae wedi'i ddiffinio yn Adran Dau: Niwed a Thramgwydd, yn bwysig.

Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion

- 5.1 Rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.
- 5.2 Fel arfer dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro ar yr awyr yn gyflym (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU, eu cywiro yn gyflym). Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol (neu, yn achos gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU, dylid eu gwneud yn

amlyg i wylwyr mewn ffordd briodol).

- 5.3 Ni cheir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd neu ohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny mewn achosion eithriadol. Mewn achos o'r fath, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i'r gynulleidfa.

Gofynion arbennig o ran didueddrwydd: rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill

Materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol

Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol":

Mae materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau'n faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu'r cyfryngau'n dadlau yn eu cylch. Nid yw materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn destun dadlau o reidrwydd ond maent yn ymwneud â pholisi sy'n destun trafod neu sydd wedi'i bennu eisoes gan lywodraeth genedlaethol, ranbarthol neu leol neu gan gyrrff sydd wedi'u hawdurdodi gan y cyrrff cyhoeddus hynny i wneud polisi ar eu rhan, er enghraifft, cyrrff anlywodraethol, sefydliadau Ewropeaidd perthnasol, etc.

Gwahardd barnau neu safbwyntiau

(Mae Rheol 5.4 yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio (heblaw gwasanaethau cyfyngedig) ac i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU.)

- 5.4 Rhaid i raglenni yn y gwasanaethau (sydd wedi'u rhestru uchod) wahardd pob mynegiant o farnau a safbwyntiau gan y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth am faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (oni bai fod y person hwnnw'n siarad mewn fforwm deddfwriaethol neu mewn llys barn). Mae barnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni wedi'u heithrio rhag y gofyniad hwn hefyd.

Cadw didueddrwydd dyladwy

(Mae Rheolau 5.5 i 5.12 yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni teledu, gwasanaethau teletestun, gwasanaethau rhaglenni radio cenedlaethol a sain digidol cenedlaethol, holl wasanaethau radio'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU.)

- 5.5 Rhaid i unrhyw un sy'n darparu gwasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Gellir sicrhau hyn o fewn rhaglen neu drwy gyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

Ystyr "cyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd":

Mae hyn yn golygu mwy nag un rhaglen yn yr un gwasanaeth, sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n ymdrin â'r un materion neu rai cysylltiedig o fewn cyfnod priodol ac sydd wedi'i hanelu at gynulleidfa debyg. Gall cyfres gynnwys, er enghraifft, llinyn, neu ddwy raglen (fel drama a dadl am y ddrama) neu 'glwstwr' neu 'dymor' o raglenni ar yr un testun.

- 5.6 Fel arfer dylid egluro i'r gynulleidfa ar yr awyr fod rhaglenni sydd â chysylltiad

golygyddol sy'n ymdrin â'r un testun yn cael eu darlledu (fel rhan o gyfres lle y mae'r darlledwr yn bwriadu sicrhau didueddrwydd dyladwy)⁵⁷.

- 5.7 Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau. Hefyd rhaid cyflwyno safbwyntiau gyda phwys dyladwy dros gyfnodau priodol.
- 5.8 Rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fuddiant personol sydd gan ohebydd neu gyflwynydd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy'r rhaglen.
- 5.9 Mae cyflwynwyr a gohebwy'r (heblaw cyflwynwyr newyddion a gohebwy'r mewn rhaglenni newyddion), cyflwynwyr rhaglenni neu eitemau "barn bersonol" neu "awdurol", a chadeiryddion rhaglenni trafod yn cael mynegi eu barn eu hunain am faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun trafod neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Fodd bynnag, rhaid tynnu sylw digonol at safbwyntiau eraill un ai yn y rhaglen, neu mewn cyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Yn ogystal â hynny, rhaid i gyflwynwyr beidio â manteisio ar ymddangosiadau rheolaidd i hyrwyddo eu barn mewn modd sy'n groes i'r gofyniad am ddiueddrwydd dyladwy. Yn achos rhaglenni ffonio i mewn i siarad â chyflwynwyr, rhaid cymhell barnau gwahanol a phaidio â'u gwahardd.
- 5.10 Rhaid hysbysu'r gynulleidfa'n glir ar y dechrau os yw rhaglen neu eitem yn un awdurol neu'n cyflwyno barn bersonol. Mae hyn yn ofyniad sylfaenol ac mae'n bosibl na fydd yn ddigonol ym mhob amgylchiad. (Mae cyflwynwyr 'personoliaeth' ar raglenni ffonio i mewn ar y radio wedi'u heithrio rhag y ddarpariaeth hon oni bai fod eu statws o ran datgan barn bersonol yn aneglur.)

Ystyr "barn bersonol" ac "awdurol":

Mae rhaglenni "barn bersonol" yn rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol. Mae rhaglenni barn bersonol yn gallu amrywio o fynegiad plaen o farn bleidiol iawn, er enghraifft gan rywun sy'n aelod grŵp sy'n ymgyrchu ar y mater, i farn "awdurol" ystyriol gan newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigaeth mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn un sydd yn y brif ffrwd.

Materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol

- 5.11 Yn ogystal â'r rheolau uchod, rhaid i'r sawl sy'n darparu gwasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir.

Ystyr "materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol":

Bydd y rhain yn amrywio yn ôl digwyddiadau ond fel arfer maent yn faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu'n faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol sydd o bwys cenedlaethol, ac yn aml o bwys rhyngwladol, neu'n rhai o bwysigrwydd tebyg o fewn ardal ddarlledu lai.

- 5.12 Wrth ymdrin â materion gwleidyddol a diwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, rhaid cynnwys ystod briodol eang o safbwyntiau pwysig a rhoi pwys dyladwy iddynt ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni sy'n amserol ac wedi'u cysylltu'n glir. Rhaid peidio â chamliwio safbwyntiau a ffeithiau.

Atal amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau ar faterion gwleidyddol neu

⁵⁷ Ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-awlad Cyhoeddus y BBC yn y DU dylai hyn gael ei wneud yn amlwg i'r gynulleidfa drwy ddefnyddio arwyddion priodol i'r gynulleidfa.

ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol

(Mae Rheol 5.13 yn berthnasol i wasanaethau radio lleol (yn cynnwys gwasanaethau radio cymunedol), gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol (yn cynnwys gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy radio.) Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, nid yw'n berthnasol i unrhyw rai o wasanaethau'r BBC.)

5.13 Ni ddylai darlledwyr roi amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau pobl neu gyrff penodol ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun trafod a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn yr holl raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth (sydd wedi'i restru uchod) o'u cymryd gyda'i gilydd.

Ystyr "amlygrwydd gormodol i farnau a safbwyntiau":

Mae amlygrwydd gormodol yn ddiffyg cydbwysedd sylweddol yn y safbwyntiau a fynegir wrth roi sylw i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

Ystyr "rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth...O'u cymryd gyda'i gilydd":

Ystyr rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw wasanaeth o'u cymryd gyda'i gilydd yw'r holl raglenni ar wasanaeth sy'n ymdrin â'r un materion neu rai cysylltiedig o fewn cyfnod priodol.

Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 319(2)(c) a 320 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Siarter a Chytundeb y BBC ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylai darlledwyr ddal sylw hefyd ar yr adrannau perthnasol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) – gweler yn benodol adrannau 66A, 92 a 93 (sydd wedi'i diwygio gan adran 144 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000).)

Mae rheolau a wnaed dan adran 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (mewn cysylltiad â darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau gwleidyddol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferenda) a Chytundeb y BBC ac y cyfeirir atynt ym mharagraff 18 o Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003, i'w cael yn *Ofcom Rules on Party Political and Referendum Broadcasts* sydd ar wefan Ofcom. Fodd bynnag, mae hefyd yn ofynnol i ddarllediadau o'r fath gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod hwn, er enghraifft, y darpariaethau ynghylch niwed a thramgwydd – er bod y cynnwys yn gyfrifoldeb fel arfer i'r pleidiau gwleidyddol perthnasol.

Egwyddor

Sicrhau y cymhwysir y gofynion arbennig o ran didueddrwydd sydd yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ac mewn deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â darlledu ar etholiadau a refferenda, ar adeg etholiadau a refferenda.

Rheolau

Rhaglenni ar adeg etholiadau a refferenda

6.1 Mae'r rheolau sydd yn Adran Pump, yn enwedig y rheolau sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn berthnasol i'r sylw i etholiadau a

refferenda.

Rhaglenni ar adeg etholiadau a refferenda yn y DU

Nid yw gweddill yr adran hon ond yn gymwys yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm ei hun sydd wedi'i ddiffinio isod.

Ystyr “etholiad”:

At ddiben yr adran hon mae etholiadau'n cynnwys etholiad cyffredinol seneddol, is-etholiad seneddol, etholiad llywodraeth leol, etholiad maer, etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, etholiad Senedd yr Alban, etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Llundain, ac etholiad Senedd Ewrop.

Ystyr “refferendwm”:

At ddiben yr adran hon mae refferendwm yn refferendwm statudol (y mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“PPERA”) yn berthnasol iddo neu y mae adran 127 o PPERA yn berthnasol iddo) sydd yn cynnwys refferendwm ar draws y DU, refferendwm cenedlaethol neu ranbarthol a gynhelir o dan ddarpariaethau un o Ddeddfau Senedd y DU neu Senedd yr Alban, ond nid yw'n cynnwys refferendwm lleol.

6.2 Rhaid rhoi pwys dyladwy ar y sylw i'r pleidiau mwy ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw i'w rhoi i bleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, rhaid i ddarlledwyr ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Rhaid i ddarlledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig.

Ystyr “cyfnod yr etholiad”:

Yn achos etholiad cyffredinol seneddol, mae'r cyfnod hwn yn dechrau wrth ddiddymu'r Senedd. Yn achos is-etholiad seneddol, mae'r cyfnod hwn yn dechrau wrth gyhoeddi gwrit neu ar ddyddiad cynharach yn unol â hysbysiad yn y London Gazette. Yn achos etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r cyfnod yn dechrau wrth ddiddymu Senedd yr Alban neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu, yn achos is-etholiad, ar y dyddiad pan ddaw sedd yn wag. Yn achos Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain ac etholiadau llywodraeth leol, mae'n dechrau ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau etholiad. Yn achos etholiadau Senedd Ewrop, mae'n dechrau ar y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, sef 25 o ddiwrnodau cyn yr etholiad. Ym mhob achos bydd y cyfnod yn dod i ben pan fydd pleidleisio'n gorffen.

Ystyr “ymgeisydd”:

Mae i ymgeisydd yr ystyr a roddir iddo yn adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) ac mae'n golygu ymgeisydd sydd wedi'i enwebu i sefyll yn yr etholiad neu ei gynnwys mewn rhestr o ymgeiswyr a gyflwynwyd mewn cysylltiad ag ef.

6.3 Rhaid rhoi pwys dyladwy i gyrff dynodedig mewn rhaglenni yn ystod cyfnod y refferendwm. Rhaid i ddarlledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr cymeradwy eraill sydd â barnau a safbwyntiau pwysig.

Ystyr “sefydliad dynodedig” a “cyfranogwyr cymeradwy”:

Cyrff dynodedig a chyfranogwyr cymeradwy yw'r rheini sydd wedi'u dynodi gan y Comisiwn Etholiadol.

Ystyr “cyfnod refferendwm”:

Yn achos refferenda, gall gwahanol gyfnodau fod yn gymwys. Bydd refferendwm a gynhelir dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (fel y'i diwygiwyd) yn dechrau pan roddir drafft o Orchymyn gerbron y Senedd i'w gymeradwyo gan y ddau Dŷ. Yn achos refferendwm a gynhelir dan Ddeddfau eraill, nodir yr adeg pan fydd cyfnod refferendwm yn dechrau yn y Deddfau penodol. Yn achos Gorchymyn sydd gerbron y Senedd, rhoddir yr amser yn y Gorchymyn hwnnw. Ym mhob achos bydd y cyfnod yn dod i ben pan fydd pleidleisio'n gorffen.

- 6.4 Rhaid gorffen trafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda pan fydd y pleidleisio'n dechrau. (Mae hyn yn cyfeirio at agor y gorsafoedd pleidleisio eu hunain. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais a gynhelir drwy'r post yn unig.) Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros y cyfnod pan fydd modd pleidleisio.
- 6.5 Ni chaiff darlledwyr gyhoeddi canlyniadau unrhyw arolwg barn ar y diwrnod pleidleisio ei hun nes bydd gorsafoedd pleidleisio'r etholiad neu refferendwm yn cau. (Yn achos etholiadau Senedd Ewrop, mae hyn yn gymwys nes bydd yr holl orsafoedd pleidleisio ledled yr Undeb Ewropeaidd wedi cau.)
- 6.6 Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU, beidio â gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr mewn unrhyw fath o raglen yn ystod cyfnod yr etholiad. Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros gyfnod yr etholiad neu'r refferendwm.
- 6.7 Mae ymddangosiadau gan ymgeiswyr (yn etholiadau'r DU) neu gynrychiolwyr (i gyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU) mewn rhaglenni anwleidyddol a gafodd eu cynllunio neu eu hamserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm yn cael mynd ymlaen, ond ni ddylid trefnu a darlledu unrhyw ymddangosiadau newydd yn ystod y cyfnod. Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros gyfnod yr etholiad neu'r refferendwm.

Sylw i etholaethau a sylw i ardaloedd etholiadol mewn etholiadau

(Ni fydd Rheolau 6.8 i 6.12 ond yn gymwys i S4C a/neu'r BBC os yw'r darlledwr perthnasol wedi'u mabwysiadu dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl fel ei Chod Ymarfer.)

- 6.8 Rhaid sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn adroddiadau neu drafodaethau ar etholaethau neu mewn adroddiadau a thrafodaethau ar ardaloedd etholiadol.

Ystyr "ardal etholiadol":

Ardal etholiadol (er enghraifft, adran etholiadol, ward bwrdeistref neu ardal arall) yw'r hyn sy'n cyfateb mewn llywodraeth leol i'r term seneddol "etholaeth".

- 6.9 Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ei etholaeth neu ei ardal etholiadol yna rhaid i ddarlledwyr gynnig y cyfle i gymryd rhan i'r holl ymgeiswyr yn yr etholaeth neu'r ardal etholiadol sy'n cynrychioli pleidiau sydd wedi cael cefnogaeth sylweddol mewn etholiadau blaenorol neu lle ceir tystiolaeth o gefnogaeth bresennol sylweddol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol. Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn gwrthod neu'n methu â chymryd rhan, caiff yr eitem fynd ymlaen serch hynny.
- 6.10 Rhaid cynnwys mewn unrhyw adroddiad neu drafodaeth ar etholaeth neu ardal etholiadol a ddarlledir ar ôl cau'r enwebiadau restr o'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll, gan roi eu henwau cyntaf, eu cyfenwau ac enw'r blaid y maent yn ei chynrychioli neu, os ydynt yn sefyll yn annibynnol, y ffaith eu bod yn ymgeisydd annibynnol. Rhaid cyfleu hyn drwy sain a/neu lun. Os ailddarlledir adroddiad ar etholaeth ar wasanaeth radio nifer o weithiau ar yr un diwrnod, dim ond unwaith y mae angen darlledu'r rhestr lawn. Os na fydd yr adroddiad ar etholaeth yn rhoi'r rhestr lawn o ymgeiswyr wrth ei ailddarlledu wedyn ar y diwrnod hwnnw, dylid cyfeirio'r gynulleidfa i wefan briodol neu ffynhonnell wybodaeth arall sy'n rhestru'r holl ymgeiswyr ac yn rhoi'r wybodaeth sydd wedi'i nodi uchod.
- 6.11 Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn rhaglen ar unrhyw fater, ar ôl galw'r etholiad, rhaid peidio â rhoi cyfle iddo wneud pwyntiau am yr etholaeth, neu bwyntiau am ardal etholiadol ynghylch yr etholaeth neu ardal etholiadol lle y mae'n sefyll, os

na roddir cyfle tebyg i unrhyw ymgeiswyr eraill.

6.12 Os rhoddir sylw i ranbarthau etholiad ehangach, er enghraifft, mewn etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain neu Senedd Ewrop, bydd Rheolau 6.8 i 6.12 yn gymwys o ran cynnig cyfle i gymryd rhan i ymgeiswyr. Yn yr achosion hyn, dylid rhestru'r holl bleidiau sydd ag ymgeisydd yn y rhanbarth perthnasol drwy sain a/neu lun, ond nid oes angen rhestru ymgeiswyr yn unigol. Fodd bynnag, rhaid enwi unrhyw ymgeisydd annibynnol nad yw'n sefyll ar restr plaid. Os ailddarlledir adroddiad ar wasanaeth radio nifer o weithiau ar yr un diwrnod, dim ond unwaith y mae angen darlledu'r rhestr lawn. Os na fydd yr adroddiad ar etholaeth yn rhoi'r rhestr lawn o ymgeiswyr wrth ei ailddarlledu wedyn ar y diwrnod hwnnw, dylid cyfeirio'r gynulleidfa i wefan briodol neu ffynhonnell wybodaeth arall sy'n rhestru'r holl ymgeiswyr ac yn rhoi'r wybodaeth sydd wedi'i nodi uchod. Os na fydd yr adroddiad ar etholaeth yn rhoi'r rhestr lawn o ymgeiswyr wrth ei ailddarlledu wedyn ar y diwrnod hwnnw, dylid cyfeirio'r gynulleidfa i wefan briodol neu ffynhonnell wybodaeth arall sy'n rhestru'r holl ymgeiswyr ac yn rhoi'r wybodaeth sydd wedi'i nodi uchod.

Atodiad 3

Y cefndir statudol

- A3.1 O dan adran 3(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), prif ddyletswydd Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaeth ydy:
- "hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu"; a
 - "hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth"
- A3.2 Ymhellach, mae adran 3(2)(e) o'r Ddeddf yn mynnu bod, yn benodol ac ymysg pethau eraill, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod "safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath".
- A3.3 Fel rhan o'i ddyletswyddau a'i swyddogaethau mewn perthynas â darlledu o dan adran 319 o'r Ddeddf mae'n rhaid i Ofcom lunio cod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, gan osod safonau sy'n ymddangos iddo fel y rhai gorau i sicrhau nifer o amcanion safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni. Mae'r safonau mae Ofcom wedi'u gosod wedi cael eu cynnwys yng Nghod Darlledu Ofcom ("y Cod").
- A3.4 Dau o'r amcanion safonol a nodir yn adran 319 o'r Ddeddf ydy:
- "y bydd newyddion sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, ac y cydymffurfir â'r gofynion o ran didueddrwydd yn adran 320" (adran 319(2)(c)); ac
 - "y bydd newyddion sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb dyladwy" (adran 319(2)(d)).
- A3.5 Yn gryno, mae'r "gofynion o ran didueddrwydd dyladwy" a nodir yn adran 320 y Ddeddf, ac y cyfeirir atyn nhw ym mharagraff A3.4(a), yn gofyn:
- eithrio "pob mynegiant o farn neu safbwyntiau'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth" ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (adran 320(1)(a));
 - didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (adran 320(1)(b)); a
 - rhwystro, yn achos gwasanaethau radio nad ydyn nhw'n rhai cenedlaethol "rhoi amlygrwydd amhriodol yn y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth i safbwyntiau a barn unigolion neu gyrff penodol" ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (adran 320(1)(c)).

- A3.6 Mae Adran 320 o'r Ddeddf hefyd yn datgan bod modd diwallu didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â "chyfres o raglenni drwy eu cymryd gyda'i gilydd" a'i bod yn rhaid i God Ofcom gynnwys rheolau sy'n ystyried yr angen i sicrhau bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gadw ar "faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion o bwys mawr sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol".
- A3.7 Caiff yr amrywiol ofnyon sy'n ymwneud â didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy sy'n cael eu nodi ym mharagraffau A3.4 i A3.6 uchod eu hadlewyrchu yn Adran Pump y Cod.
- A3.8 Ar ben hynny, o dan adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid i Ofcom fabwysiadu a sicrhau bod darlledwyr sydd dan drwydded i Ofcom yn dilyn cod ymarfer mewn perthynas â chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau darlledu ynghylch yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw.
- A3.9 Mewn geiriau eraill, rhaid i ni osod rheolau mae'n rhaid i'r darlledwyr gydymffurfio â nhw pan fyddan nhw'n darlledu eitemau sy'n cynnwys ymgeiswyr, er enghraifft, wrth drafod neu godi materion ynghylch yr etholaethau neu'r ardaloedd etholiadol maen nhw'n sefyll ynddyn nhw. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hadlewyrchu mewn nifer o offerynnau statudol yng nghyswllt eitemau darlledu sy'n rhoi sylw i etholiadau Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd Ewrop a swydd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd⁵⁸. Ym mhob achos, cyn llunio cod ymarfer o'r fath, rhaid i ni roi sylw i unrhyw safbwyntiau sydd wedi cael eu mynegi gan y Comisiwn Etholiadol. Rydyn ni wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r rheolau yn Adrannau Pump a Chwech y Cod, ac yn enwedig drwy orfodi Rheolau 6.8 ymlaen ar sylw i etholaethau ac ardaloedd etholiadol mewn etholiadau, ac Arweiniad cysylltiedig.
- A3.10 Ar ben hynny, mae adran 333 y Ddeddf yn datgan y bydd y drefn reoleiddio ar gyfer pob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus, gwasanaeth radio cenedlaethol a gwasanaeth teledu lleol yn cynnwys amodau sy'n mynnu bod y sianel neu'r gwasanaeth hwnnw yn cynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm, ac amodau sy'n mynnu eu bod yn dilyn y rheolau sy'n cael eu gosod gan Ofcom yng nghyswllt y darllediadau hynny. Rydyn ni wedi cyflawni'r ddyletswydd hon drwy gynnwys yr amodau angenrheidiol yn y trwyddedau darlledu teledu a radio perthnasol a drwy reolau Ofcom ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol a Refferenda⁵⁹.

Adnewyddu Siarter y BBC

⁵⁸ Edrychwch ar SI 2007/236 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 rheoliad 67; SI 2010/2999 Gorchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau ayb) 2010 rheoliad 64; SI 2004/1267 Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop (Gogledd Iwerddon) 2004 rheoliad 60; SI 2004/293 Rheoliadau Senedd Ewrop 2004 rheoliad 65; Gorchymyn Cynulliad Gogledd Iwerddon (Etholiadau) (Diwygio) 2009 rheoliad 3.

⁵⁹ Bydd rheolau diwygiedig Ofcom ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a referenda ar gael ar wefan Ofcom.

- A3.11 O dan adran 198 o'r Ddeddf, un o swyddogaethau Ofcom, i'r graddau y mae darpariaeth iddynt wneud hynny yn Siarter a Chytundeb y BBC, y Ddeddf a Rhan 5 Deddf Darlledu 1996, ydy rheoleiddio darpariaeth gwasanaethau'r BBC.⁶⁰
- A3.12 Y Siarter Frenhinol ydy sylfaen gyfansoddiadol y BBC. Mae'n nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu ei annibyniaeth, ac yn rhoi fframwaith ar gyfer ei ariannu, ei lywodraethu a'i reoleiddio. Mae'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r BBC yn mynd law yn llaw â'r Siarter. Mae'n rhoi manylion ynghylch nifer o'r pynciau sy'n cael eu hamlinellu yn y Siarter.
- A3.13 Ar 15 Rhagfyr 2016 cyhoeddodd⁶¹ y Llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith newydd ar gyfer y BBC. Daw'r Siarter a'r Cytundeb i rym ar 3 Ebrill 2017. Mae trefniadau pontio ar waith hyd at 3 Ebrill 2017. Yn benodol, bydd Adrannau Pump (didueddrwydd dyladwy) a Chwech (etholiadau a refferenda) y Cod, a rheolau Ofcom ar ddarllediadau gwleidyddol a refferenda, yn berthnasol i'r BBC o 22 Mawrth 2017 ymlaen.
- A3.14 O dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, Ofcom fydd yn llwyr gyfrifol am reoleiddio'r BBC yn allanol. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Ofcom reoleiddio holl feysydd safonau cynnwys y BBC i sicrhau ei fod yn diwallu'r gofynion.
- A3.15 Yn rhinwedd erthygl 46(7) o'r Siarter Frenhinol, bydd yn rhaid i Ofcom "sicrhau bod safonau'n cael eu dilyn yng nghynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus perthnasol y DU sy'n gorfod bod yn unol â'r Codau Safonau a Thegwch". Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ydy gwasanaethau'r BBC sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded (ac eithrio'r World Service). Nid yw hyn yn effeithio ar wasanaethau masnachol y BBC sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom sydd eisoes yn rhwym wrth ei reoleiddio safonau cynnwys.
- A3.16 Mae'r gofyniad cyffredinol i gydymffurfio â safonau cynnwys sy'n cael eu pennu gan Ofcom wedi'i osod yn Atodlen 3, paragraff 3 o'r Cytundeb sy'n datgan:

"3. Safonau Cynnwys

(1) Wrth ddarparu Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y safonau sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Cod Safonau' Ofcom). At ddibenion y gofynion yn y Cod Safonau sy'n rhoi grym i adran 320 o'r Ddeddf honno (gofynion didueddrwydd dyladwy arbennig), bydd y Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n wasanaethau radio yn cael eu trin fel gwasanaethau radio cenedlaethol.

(2) Wrth Ddarparu Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Safonau i'r graddau mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaethau rhaglenni ar-alwad hynny".

- A3.17 Bydd y gofynion hyn yn cael eu nodi yng Nghod Darlledu Ofcom a fydd, am y tro cyntaf erioed, yn gwbl berthnasol i'r BBC. Yn benodol, yn ogystal â bod yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU, bydd y Cod hefyd yn berthnasol i Wasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU.

⁶⁰ Mae'r Llywodraeth wedi cynnig diwygiadau i adran 198, ym Mil yr Economi Ddigidol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Yn benodol, mae wedi cynnig, yn hytrach na chyfeirio at ddarparu gwasanaethau'r BBC, bydd adran 198(1) yn datgan mai un o swyddogaethau Ofcom ydy "rheoleiddio'r BBC".

⁶¹ Edrychwch ar <https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement>

- A3.18 O dan Atodlen 3, paragraff 5 o'r Cytundeb mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi'r gofynion ar y BBC y mae Ofcom yn credu sy'n briodol er mwyn mynnu bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol pleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferenda yn cael eu cynnwys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus o'r fath yn y DU fel y mae Ofcom yn credu sy'n briodol. Mae'r darpariaethau sydd yn Atodlen 3, paragraff 5 o'r Cytundeb yn dyblygu'r dyletswyddau sydd eisoes wedi'u rhoi ar Ofcom o dan adran 333 o'r Ddeddf, fel y trafodwyd ym mharagraff A3.10 uchod.

Atodiad 4

Safbwyntiau ymatebwyr ar y cynigion yn ein Hymgyngoriad

A4.1 Yn yr Atodiad hwn rydym yn crynhoi safbwyntiau'r ymatebwyr ar y cynigion a wnaed yn ein Hymgyngoriad. Mae ein safbwyntiau ynghylch y cyflwyniadau hyn ar gael yn Adrannau 2 a 3.

Y cysyniad o restr o bleidiau mwy

A4.2 Cawsom 18 o ymatebion ynghylch yr agwedd hon o'r Ymgynghoriad.

A4.3 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnig Ofcom i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy o Adran Chwech y Cod a'r Rheolau ar ddarlediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol fod y rhestr o bleidiau mwy yn "creu ffordd sy'n ddianghenraid o anhyblyg ar gyfer rheoleiddio darlledu mewn etholiadau...mae'r dirwedd wleidyddol yn dod yn fwyfwy cymhleth ar gyfer cynhyrchu rhestr sy'n addas i bob darlledwr". Roedd yr ymatebydd hwn o'r farn ei bod hi'n briodol caniatáu i ddarlledwyr wneud penderfyniadau drwy gyfeirio at lefelau o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Roedd hefyd yn croesawu y bydd "llwybr apelio clir i Ofcom yn dal mewn lle i bleidiau ac i ymgyrchwyr sy'n dymuno cwyno am unrhyw benderfyniad a wneir".

A4.4 Roedd y BBC yn cefnogi cynnig Ofcom i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy, gan nodi bod y BBC "wedi bod yn penderfynu ar hyn yn flynyddol gan gyfeirio at gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol" a bod hyn yn caniatáu "mwy o hyblygrwydd wrth ystyried amrywiaeth y dirwedd wleidyddol bresennol".

A4.5 Roedd Channel 4 yn croesawu'r cynigion i roi mwy o ryddid golygyddol i ddarlledwyr. Dywedodd fod ganddo'r "wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol" i asesu cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a chefnogaeth bresennol a'i fod yn gwneud hynny mewn perthynas â darlediadau etholiadol gan bleidiau a'i raglenni *Slot Gwleidyddol*. Serch hynny roedd yn cydnabod "y byddai ymgeiswyr a phleidiau yn cael cysur ychwanegol" o'r ffaith eu bod yn gallu apelio wrth Ofcom ynghylch penderfyniadau darlledwyr.

A4.6 Roedd Channel 5, fel Channel 4 yn dadlau bod y darlledwyr mawr yn "meddu ar hen ddigon o allu i wneud eu penderfyniadau eu hunain" am ddyrannu darlediadau etholiadol gan bleidiau a rhoi sylw mewn etholiadau. Roedd hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn yr Ymgynghoriad nad yw'r rhestr efallai'n adlewyrchiad digonol o gyflwr darnigol presennol y dirwedd wleidyddol bresennol.

A4.7 Roedd ITV/STV yn cefnogi'r cynnig i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy ar yr amod bod Ofcom yn cynhyrchu crynodeb blynyddol o dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. "ar gyfer y dyfodol agos". Fodd bynnag, dywedodd y ei bod "yn debygol iawn" y byddai dileu'r rhestr yn creu cynnydd mewn apeliadau i Ofcom am benderfyniadau golygyddol darlledwyr a dyraniadau darlediadau etholiadol gan bleidiau. Ychwanegodd: "Rydym yn ffyddiog bod Ofcom wedi cynnal asesiad addas o'r adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen yn ystod cyfnodau etholiadau i ddelio â chynnydd mewn cwynion o'r fath".

- A4.8 Yn yr un modd ag ITV/STV, dywedodd S4C nad oedd yn gwrthwynebu dileu'r rhestr o bleidiau mwy ar yr amod bod Ofcom yn cynhyrchu crynodeb blynyddol o gefnogaeth etholiadol. Roedd yn dweud bod hyn oherwydd, nad oes gan S4C, fel nifer o ddarlledwyr llai, ddigon o adnoddau mewnol i gynnal dadansoddiad manwl o gefnogaeth cyn pob cyfnod etholiad a darllediad gwleidyddol. Dywedodd S4C hefyd yn niffyg rhestr gyson rhwng darlledwyr "mae hi'n bosibl iawn y bydd darlledwyr yn fwy agored i gael cwynion gan bleidiau oherwydd unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y cânt eu trin".
- A4.9 Roedd Sky News, fel y darlledwyr eraill, yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r rhestr o bleidiau mwy, gan ddisgrifio'r rheolau fel "offeryn anghynnil braidd" a gan ychwanegu ei fod mewn is-etholiadau diweddar "wedi cael ei orfodi gan y rheolau i gynnwys cyfweiliadau gyda ymgeiswyr a aeth ymlaen i golli eu blaendal". Ychwanegodd: "Fel sefydliad newyddion mawr rydym yn teimlo ein bod yn ddigon abl i wneud y penderfyniadau iawn" ond fel ymatebwyr eraill, roeddent yn rhagweld efallai y byddai mwy o apeliadau gan bleidiau i Ofcom. Roedd Sky News yn annog Ofcom i "sicrhau ei fod yn gallu ymateb yn gyflym i anghydfodau" yn ystod ymgyrchoedd etholiadau.
- A4.10 Soniodd ITN am y gwahanol resymau pam dylid dileu'r cysyniad o bleidiau mwy o reolau Ofcom. Yn gyntaf, roedd y cynnydd yn nifer y pleidiau mwy ar gyfer rhai etholiadau⁶² wedi golygu ar gyfer adroddiadau newyddion byr "ei bod hi'n gallu bod yn eithriadol o anodd cynnwys pedwar neu bum cyfweiliad" gydag holl ymgeiswyr y pleidiau mwy; yn ail, mae Rheol 6.9⁶³ yn "gyfyngiad afresymol ar ryddid golygyddol" ac mae'n golygu bod adroddiadau ar etholiadau yn "fformiwläig", ond "mewn pob math arall o adroddiadau bydd rhywun yn cael ei gyfweld dim ond os oes cyfiawnhad golygyddol dros eu cyfraniad"; yn drydydd, dywedodd ITN ei bod "yn gallu bod yn wirioneddol anodd yn ymarferol" cysylltu a chwrdd â'r holl ymgeiswyr o'r pleidiau mwy; ac yn olaf, mae adegau "pan roddir amser anghymesur i ymgeiswyr na fyddant yn ennill", fodd bynnag, mae ITN yn cydnabod y byddai rhai adegau "pan fydd angen cyfweld â nifer sylweddol o ymgeiswyr". Ychwanegodd ITN y byddai gan ddarlledwyr ddyletswydd o hyd i fod yn ddigon diduedd ond dim drwy ddilyn dull "un maint yn addas i bawb".
- A4.11 Ymysg y pleidiau gwleidyddol, roedd Plaid Genedlaethol yr Alban yn cefnogi dileu'r cysyniad o bleidiau mwy gan dynnu sylw at etholiadau Senedd yr Alban yn 2016, pan ddynodwyd bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn blaid fwy ac nad oedd Plaid Werdd yr Alban yn blaid fwy, a bod Plaid Werdd yr Alban wedi "ennill cyfran fwy o'r bleidlais ranbarthol ym mis Mai 2016 a bod mwy o'u hymgeiswyr nhw wedi cael eu hethol yn Aelodau Senedd yr Alban nag ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol". Dywedodd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig fod dileu'r cysyniad o bleidiau mwy "ond yn adlewyrchu cymhlethdod tirwedd wleidyddol y DU dros y tair blynedd diwethaf".
- A4.12 Roedd Plaid Werdd yr Alban hefyd yn cytuno â'r cynnig i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy o reolau Ofcom, gan ddweud nad yw'r gwahaniaeth "yn adlewyrchu tirwedd wleidyddol sy'n gynyddol gymhleth, yn enwedig yn yr Alban". Roedd yn ystyried bod rhoi rhagor o ryddid golygyddol i ddarlledwyr drwy gyfeirio at gefnogaeth flaenorol a

⁶² Soniodd ITN am etholiadau Cynulliad a Maer Llundain ac etholiadau Cynulliad Cymru yn 2016.

⁶³ Roedd Rheol 6.9 yn datgan: "Os bydd ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ei etholaeth neu ei ardal etholiadol penodol, yna rhaid cynnig y cyfle i ymgeiswyr o bob un o'r pleidiau mwy gymryd rhan. (Fodd bynnag, os byddan nhw'n gwrthod neu ddim yn gallu cymryd rhan, caiff yr eitem fynd ymlaen.)"

chefnogaeth bresennol “yn rhywbeth y byddai modd ei gefnogi yn gyffredinol” ar yr amod nad oedd gostyngiad yn “yr amrywiaeth o leisiau” a fyddai i’w clywed mewn sylw darlledu. Dywedodd yr ymatebydd hwn yn yr Alban “mae gennym senedd o bleidiau lleiafrifol lle mae gan bob plaid gyfle i ddylanwadu ar ddadleuon...felly ni fyddai tynnu’r llinell rhwng y 3^{edd} a’r 4^{edd} blaid fwyaf, er enghraifft, yn rhoi’r ystod berthnasol o safbwyntiau i’r cyhoedd”. Dywedodd hefyd wrth ystyried sylw cenedlaethol bod “amrywiaethau lleol yn bwysig”⁶⁴.

A4.13 Dywedodd y Democratiaid Rhyddfrydol “y gellid gwneud i ddileu’r cysyniad o bleidiau mwy weithio”. Fodd bynnag, cododd rai pwyntiau a oedd yn achosi pryder, gan gynnwys:

- dylai unrhyw fframwaith newydd ymateb i’r system aml-blaid gymhleth yn y DU “lle mae mwy na dwy blaid mewn sefyllfa o sicrhau cefnogaeth ac o bosibl ffurfio rhan o lywodraeth yn y dyfodol”. Ychwanegodd yr ymatebydd hwn fod yr heriau logistaidd sy’n wynebu darlledwyr o dan Reol 6.9⁶⁵ yn “gynnyrch o bleidleiswyr...ac na ddylid anwybyddu hynny er mwyn sicrhau hwylustod i gynhyrchwyr”;
- bod angen cael “meini prawf gwrthrychol a chliir” ynghylch beth sydd yn gefnogaeth etholiadol blaenorol a beth sydd yn gefnogaeth bresennol ac y dylid cynnwys “etholiadau go iawn lle mae pobl yn pleidleisio fel rhan o’r mesur o gefnogaeth bresennol”;
- bod y gallu i apelio i Ofcom ynghylch penderfyniadau golygyddol yn “wallus” oherwydd bod apelïadau o’r fath yn digwydd ar ôl y darlledu. Mae rhoi disgrisiwn i ddarlledwyr yn “addas i’r pleidiau sydd â’r mwyaf o adnoddau” oherwydd “bydd yn rhaid rhoi cynrychiolaeth i fwy nag un darlledwr” bydd y pleidiau yna hefyd “â gwell adnoddau i fonitro’r holl allbwn” yn ogystal â rhagor o staff ar y lefel leol i fonitro ac i herio penderfyniadau golygyddol;
- mae penderfyniadau ynghylch sylw mewn etholiadau “yn rhan o’r broses etholiadol” fel, er enghraifft, penderfyniad a fformat dadleuon yr arweinwyr yn Etholiad Cyffredinol 2015. Yn y cyd-destun hwn roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn dadlau y dylai Ofcom ddiffinio cyn cyfnod yr etholiad “pa berfformiad sy’n angenrheidiol i blaid gael lefel benodol o sylw a thegwch â phleidiau eraill”, a
- dylai lefelau’r sylw darlledu “beidio â golygu cydraddoldeb mewn darllediadau ar draws y DU ar gyfer pleidiau nad ydynt yn ceisio llywodraethu’r DU i gyd”.

A4.14 Roedd nifer o ymatebwyr eraill hefyd yn cytuno â’r cynnig i ddileu’r cysyniad o bleidiau mwy. Dywedodd y VLV y byddai gwneud penderfyniadau golygyddol a phenderfynu ar ddyrannu darllediadau etholiadol gan bleidiau drwy gyfeirio at dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a thystiolaeth o gefnogaeth bresennol yn rhoi “mwy o ryddid golygyddol i ddarlledwyr adlewyrchu cyflwr mwy darniog a chymhleth y dirwedd wleidyddol” yn y DU. Byddai hefyd yn caniatáu i

⁶⁴ Yn y cyd-destun hwn, dywedodd Plaid Werdd yr Alban: “Ar draws yr Alban mae’r Ceidwadwyr nawr yn cael eu hystyried yn 2^{il} blaid yr Alban, oherwydd canlyniad etholiadau 2016 Holyrood, a’r Blaid Werdd yn 4^{edd}, er hynny ar Gyngor Dinas Glasgow y Blaid Werdd ydy’r 3^{edd} blaid fwyaf a’r Blaid Geidwadol ydy’r 4^{edd} gyda dim ond un cynghorydd”.

⁶⁵ Edrychwch ar droednodyn 62.

ddarledwyr “sydd ag ôl-troed darlledu llai roi adlewyrchiad sy’n fwy cywir o’r sefyllfa wleidyddol yn eu hardal leol”.

A4.15 Dywedodd Dr Sally Broughton Micova fod penderfyniad Ofcom cyn Etholiad Cyffredinol 2015 i ddynodi Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig fel plaid fawr a pheidio â gwneud hynny ar gyfer y Blaid Werdd wedi bod yn “hynod ddadleuol”. Ychwanegodd y byddai dileu’r cysyniad o bleidiau mwy o reolau Ofcom yn “dileu unrhyw ddylanwad y gallai’r dynodiad o fod yn blaid fwy ei gael ar bleidleiswyr”. Dywedodd yr Athro Ivor Gaber fod y rhestr o bleidiau mwy wedi cael ei chyflwyno ar adeg pan roedd “llawer llai o anwadalwch etholiadol” ac amrywiaethau mewn cefnogaeth etholiadol ar draws gwledydd y DU. Ychwanegodd fod angen rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarledwyr, ond gyda’r hawl i bleidiau apelio yn erbyn penderfyniadau darledwyr i Ofcom.

A4.16 Nid oedd tri ymatebydd, un darlledwr a dwy blaid wleidyddol, yn cytuno â’r cynnig i ddileu’r cysyniad o bleidiau mwy o reolau Ofcom. Dywedodd y darlledwr Global ei fod yn ffafrio cadw’r rhestr o bleidiau mwy oherwydd:

- roedd y rhestr wedi galluogi staff newyddion Global i wneud penderfyniadau newyddion “cyflym ac ar sail gwybodaeth” gan nodi y gallai “trafodaethau gyda phleidiau ynghylch adroddiadau am etholaethau fod yn hir ac yn gymhleth”;
- mae’r rhestr yn “ddefnyddiol ar gyfer lleihau nifer y cwynion di-sail” ynghylch canfyddiad o ragfarn ar ran y darlledwr; a
- heb restr gallai fod cynnydd “sylweddol” yn nifer y cwynion ynghylch etholiadau a fyddai’n golygu goblygiadau o ran adnoddau i Ofcom ac i ddarledwyr llai.

Fodd bynnag, dywedodd Global mewn perthynas â darllediadau etholiadol gan bleidiau (yng nghyd-destun gorsaf radio genedlaethol Global, Classic FM), ei fod yn “agored i ddileu” y rhestr o bleidiau mwy. Y rheswm am hyn oedd: “mae modd gwneud penderfyniadau yn yr achosion hyn yn hawdd ymlaen llaw, gyda chymorth y Grŵp Cyswllt Darlledwyr, a dim ond unwaith mae angen gwneud y penderfyniadau hyn”.

A4.17 Dywedodd y Blaid Geidwadol ei fod yn anghytuno “yn gryf” â’r cynnig i ddileu’r cysyniad o bleidiau mwy ac roedd o’r farn bod hyn yn “gam dadleuol iawn ac o ran rheoleiddio gwleidyddol a oedd yn codi cwestiynau ynghylch gwneud newidiadau mawr i’r prosesau etholiadol heb atebolrwydd i’r Senedd”. Roedd yn rhoi nifer o resymau dros y safbwynt hwn:

- nid oedd Ofcom wedi rhoi digon o resymeg dros y newid arfaethedig ar wahân i gyfeirio at safbwyntiau’r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, dywedodd y Blaid Geidwadol “nad oedd y Comisiwn Etholiadol “wedi ymgynghori ynghylch y mater hwn; nad oedd wedi ei godi â’r Panel Pleidiau Seneddol ac nad oes ganddo fandad i hyrwyddo newid rheoleiddio sylweddol”;
- bod y cysyniad o bleidiau mwy yn “ddarpariaeth sydd wedi bod mewn lle ers tro, sy’n cydnabod y ffordd caiff cyfansoddiad Senedd y DU ei lunio, o ran y drefn Cyntaf i’r Felin yn Nhŷ’r Cyffredin, ond hefyd yr amlygrwydd a’r statws uwch a roddir i’r gwrthbleidiau mwyaf”;

- mae'r awgrym bod "tirwedd wleidyddol ddarniog" yn gamarweiniol: ers Etholiad Cyffredinol 2015 bu Llywodraeth Geidwadol fwyafrifol, gyda'r Blaid Lafur yn cael "statws Gwrthblaid Ei Mawrhydi yn gyfforddus" a Phlaid Genedlaethol yr Alban "wedi disodli'r Democratiaid Rhyddfrydol i fod y drydedd blaid". Dywedodd y Blaid Geidwadol hefyd yn Etholiad Cyffredinol 2015, "Roedd y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur gyda'i gilydd wedi ennill 67.2% o bleidlais y DU a 68.9% o bleidlais Prydain Fawr - a oedd yn uwch nag Etholiad Cyffredinol 2010 ac ar yr un lefel ag Etholiad Cyffredinol 2005";
- Nid ydy pob plaid yr un fath ac ni ddylai plaid sydd ag "un neu ddau o gynrychiolwyr etholedig gael yr un statws â phlaid wleidyddol a etholir gyda 50 neu hyd yn oed 100";
- mae paragraff 3.29⁶⁶ o'r Ymgynghoriad sy'n "diystyru statws 'cenedlaethol' pleidiau gwleidyddol yn methu â chydabod statws Senedd y DU fel prif gorff democrataidd cynrychioladol a sofren y Deyrnas Unedig"; a
- byddai dileu'r rhestr o bleidiau mwy yn golygu bod rhagor o ddarllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol yn cael eu rhoi i "bleidiau lleiafrifol sydd ar yr ymylon ac nad oes ganddynt gynrychiolaeth sylweddol sydd wedi'i sefydlu".

A4.18 Roedd y Blaid Lafur hefyd yn anghytuno â'r cynnig i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy gan ddadlau:

- ers 1922 "dim ond Prif Weinidogion Llafur neu Geidwadol sydd wedi bod";
- bod "cyfran y pleidleisiau i Lafur ac i'r Ceidwadwyr ym Mhrydain Fawr wedi codi o 66.6% yn 2010 i 68.8% yn 2015";
- dylai darlledwyr cenedlaethol "bob amser roi sylw i'r ddwy brif blaid wleidyddol – hyd yn oed os ydy'r ffocws ar ardal lle mae'r Blaid Lafur neu'r Blaid Geidwadol yn annhebyg o ennill, byddant yn dal yn cystadlu yn y nifer mwyaf o seddi'n genedlaethol". Ychwanegodd yr ymatebydd hwn: "Nid yw gwrthod rhoi llais Llafur neu Geidwadol ar stori wleidyddol yn adlewyrchu'r dewis o ran pwy fydd yn arwain y wlad yn y pen draw";
- bod y cysyniad o bleidiau mwy wedi sicrhau "dadl gytbwys a bod gwylwyr yn gallu cael gafael ar ddadleuon ar draws y wlad"; a
- bydd yn rhaid i ddarlledwyr "benderfynu ar eu rheolau eu hunain i wneud yr hyn nad yw Ofcom yn penderfynu ar eu rhan mwyach a allai achosi anrhefn o ran monitro apeliadau".

⁶⁶ Mae Paragraff 3.29 yn datgan: "Gellid dadlau hefyd bod gan rai pleidiau statws 'cenedlaethol' (er enghraifft, ar draws Prydain Fawr, neu yn unrhyw un o'r gwledydd datganoledig) ar draws amrywiaeth o etholiadau, ac felly eu bod yn haeddu hawl awtomatig ond cyfyngedig i gyfleu eu safbwyntiau ym mhob ardal darlledu – ni waeth pa mor fach – ym mhob etholiad. Serch hynny, yn ein barn ni, rhaid cydbwysu hyn yn erbyn cyflymder y newid yng ngwleidyddiaeth y DU, a darnu gwleidyddol cynyddol yn ddiweddar, sy'n peri risgiau na fydd y rhestr efallai'n adlewyrchiad cywir o'r lefelau amrywiol o gefnogaeth sy'n bodoli ar gyfer pleidiau gwleidyddol gwahanol ar draws gwledydd y DU....".

Crynodeb blynyddol o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol

- A4.19 Cawsom 16 o ymatebion ynghylch yr agwedd hon o'r Ymgynghoriad.
- A4.20 Roedd y mwyaf helaeth o ymatebwyr yn cytuno â chynnig Ofcom i gynhyrchu crynodeb blynyddol o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y byddai crynodeb yn "cefnogi darlledwyr llai i wneud eu penderfyniadau".
- A4.21 Ymysg y darlledwyr, roedd y BBC yn cefnogi'r cynnig i greu crynodeb gan nodi bod hyn yn "cyd-fynd ag arfer cyfredol y BBC". Dywedodd Channel 4, fel darlledwyr eraill, ei fod wedi dibynnu ar "grynodebau blaenorol Ofcom i wneud penderfyniadau golygyddol yng nghyswllt etholiadau". Yn yr un modd, dywedodd Channel 5 y byddai crynodeb yn helpu darlledwyr a phleidiau gwleidyddol gan y byddai yn "glir pa ffynonellau byddai darlledwyr yn eu defnyddio i wneud eu penderfyniadau". Dywedodd ITV "nid oes gan nifer os nad y rhan fwyaf o ddarlledwyr yr adnoddau ymchwil angenrheidiol i gynhyrchu'r crynodeb defnyddiol ac awdurdodol iawn hwn o gefnogaeth etholiadol eu hunain".
- A4.22 Awgrymodd S4C y dylai crynodeb: "gynnwys data clir yng nghyswllt cefnogaeth pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol" a dylai rhestru data ar wahân ar gyfer pedair gwlad y DU. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd S4C ei fod yn "gyfforddus" gyda lefel y manylion a chynllun y data a oedd wedi'i gynnwys yn ymgynghoriad Ofcom⁶⁷ ynghylch y rhestr o'r pleidiau gwleidyddol mawr ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd ar 7 Mai 2015. Roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn dweud y dylai Ofcom:
- gyhoeddi crynodeb o leiaf 12 wythnos cyn dechrau cyfnod yr etholiad "er mwyn sicrhau bod y darlledwyr yn cael digon o amser i lunio casgliadau, er mwyn rhoi gwybod i'r pleidiau perthnasol bod ganddynt hawl i gael darllediadau etholiadol ac, yn achos S4C, amser i sicrhau cymeradwyaeth Awdurdod S4C ar bolisi S4C"; a
 - rhoi sicrwydd bod yr wybodaeth sydd mewn un crynodeb blynyddol "yn wybodaeth mae modd dibynnu arni tan ddyddiad cyhoeddi crynodeb nesaf Ofcom".

Dywedodd S4C hefyd y dylai Ofcom gynhyrchu crynodeb hyd yn oed mewn blynyddoedd pan na chynhelir etholiad er mwyn helpu darlledwyr i ddyrannu darllediadau pleidiau gwleidyddol. Roedd yr ymatebydd hefyd wedi cyfeirio at y Rheol 21⁶⁸ newydd arfaethedig yn y Rheolau diwygiedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, a holodd a ddylai darlledwyr gynnal "asesiad o ddyrannu darllediadau pleidiau gwleidyddol yn dilyn canlyniad yr etholiad diwethaf". Yn y cyd-destun hwn, roedd S4C hefyd yn awgrymu y dylai Ofcom ystyried cynhyrchu "crynodeb ategol ar ôl etholiad er mwyn asesu" dyrannu darllediadau pleidiau gwleidyddol.

⁶⁷ Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0030/59169/major_parties.pdf

⁶⁸ Mae'r rheol hon a nodwyd yn yr Ymgynghoriad yn datgan: "21. Ym mhob un o wledydd y DU, cynigir un neu ragor o ddarllediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau dros gyfnod o 12 mis os:

- oes gan blaid un sedd neu ragor yn y wlad honno mewn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol; ac
- mae tystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu yn y wlad honno'n golygu y byddai'n briodol gwneud hynny".

- A4.23 Ymysg y pleidiau gwleidyddol, dywedodd Plaid Genedlaethol yr Alban y byddai crynodeb blynyddol “yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth i'r ddadl a'r penderfyniadau ynghylch sylw i bleidiau gwleidyddol”, a dywedodd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig y byddai yn “darparu sylfaen ar sail tystiolaeth” i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy o reolau Ofcom.
- A4.24 Roedd nifer o ymatebwyr eraill hefyd yn cytuno â'r cynnig i gynhyrchu crynodeb blynyddol. Soniodd y VLV am fantais crynodeb o'r fath i ddarllidwyr llai nad oes ganddynt efallai'r adnoddau i ailasesu cefnogaeth pleidiau yn rheolaidd. Dywedodd Dr Sally Broughton Micova y dylai'r crynodeb ganolbwyntio ar bleidiau yn hytrach nag ymgeiswyr “er mwyn osgoi cyfrannu at y patrwm tuag at wleidyddiaeth personoliaeth”. Dywedodd hefyd:
- dylai crynodeb gynnwys “y bleidlais boblogaidd a'r seddi a enillwyd yn flaenorol”;
 - dylai crynodeb hefyd gynnwys rhestr o “unrhyw bleidiau newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers yr etholiad blaenorol”; a
 - gallai crynodeb gynnwys “crynodeb o faterion etholiadol”, efallai ar sail yr Arolwg o Agweddau Cymdeithasol Prydain a ffynonellau eraill. Dywedodd yr ymatebydd y gallai hyn “amlygu rhai o'r materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i'r etholwyr a helpu darllidwyr i holi'r pleidiau yn fwy effeithiol”.
- A4.25 Dywedodd yr Athro Ivor Gaber y byddai crynodeb yn rhoi i bleidiau gwleidyddol ac i'r cyhoedd “ddealltwriaeth well ynghylch pam bod penderfyniad wedi cael ei wneud yn y gorffennol a'u galluogi i ragweld sut gellir dyrannu darllediadau yn y dyfodol agos”.
- A4.26 Dywedodd Global y byddai crynodeb yn “ddefnyddiol dros ben” wrth wneud penderfyniadau golygyddol. Fodd bynnag, ychwanegodd os ydy'r crynodeb yn flynyddol a “dim ond yn ymwneud â chefnogaeth etholiadol...mae'n ymddangos yn annhebyg y bydd yn gallu rhoi'r hyblygrwydd sy'n rhan o'r cyfiawnhad dros ddileu'r rhestr o bleidiau mwy”.
- A4.27 Cododd nifer o ymatebwyr bryderon gyda'r cynnig i gynhyrchu crynodeb. Dywedodd ITN y gallai crynodeb blynyddol “fod yn ffordd o weithredu dyfais sydd yr un mor anhyblyg” â'r rhestr o bleidiau mwy a byddai dogfen flynyddol “mewn perygl o fynd yn rhy hen yn gyflym iawn ac felly'n anghywir”. Ychwanegodd nad yw polau piniwn “o reidrwydd yn ddibynadwy” a'u bod yn gallu newid yn ddramatig “dros gyfnod etholiad, heb sôn am gyfnod o 12 mis”. Roedd ITN yn dadlau “y dylid gadael i adrannau newyddion golygyddol ganolbwyntio ar y manylion a gwneud eu hymchwil eu hunain, yn hytrach na chanolbwyntio gormod ar grynnodeb a gynhyrchir gan Ofcom”.
- A4.28 Gofynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol, os ydy Ofcom am gynhyrchu crynodeb i helpu darllidwyr llai gyda phenderfyniadau golygyddol “pam na all hyn ymestyn i Ofcom fod yn gwneud penderfyniad ar safleoedd pleidiau yn fwy cyffredinol” drwy roi “dyfarniad clir” yn ôl meini prawf gwrthrychol.
- A4.29 Roedd y Blaid Geidwadol o'r farn bod y cynnig i gynhyrchu crynodeb yn “rhan o gam yn ôl gan ddiraddio statws Etholiadau Cyffredinol y DU”. Roedd y Blaid Lafur hefyd yn anghytuno â'r cynnig i gynhyrchu crynodeb blynyddol, gan ddadlau:

- mae'n "dasg gymhleth ac anodd yn barod cymharu canlyniadau etholiadol blaenorol gydag amrywiaeth o amrywiadau, fel cymharu canlyniad yr etholiad diwethaf, neu'r etholiad tebyg diwethaf". Ychwanegodd yr ymatebydd hwn "Gyda newidiadau i ffiniau ar y gorwel, mae hyn yn siŵr o ddod yn hyd yn oed mwy cymhleth ac o'r herwydd bydd yn dod yn fwy anghywir";
- nid oes "dim arweiniad clir ynghylch sut caiff 'polau presennol' eu barnu a pha bolau fydd yn cael eu cynnwys/heithrio". Ychwanegodd yr ymatebydd: "Wrth ystyried cywirdeb diweddar polau mewn etholiadau, rydym yn cwestiynu a ddylai'r pwyslais a roddir ar eu canlyniadau gael dylanwad ar etholiadau mewn ffordd mor sylweddol"; a
- gallai crynodeb blynyddol olygu bod "data a dyfarniadau bron i flwyddyn yn hen ac nad ydynt efallai'n adlewyrchu dadleuon mawr neu newidiadau diweddar mewn cefnogaeth".

Y diwygiadau arfaethedig i Adran Chwech

- A4.30 Cawsom 13 o ymatebion ynghylch yr agwedd hon o'r Ymgynghoriad.
- A4.31 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diwygiadau a gynigiwyd gan Ofcom. Ymysg y darlledwyr, cafwyd cefnogaeth i ddiwygiadau arfaethedig Ofcom gan: y BBC; Channel 4; Channel 5; ac ITN. Ar ben hynny, nid oedd S4C yn gwrthwynebu dileu'r cyfeiriadau at bleidiau mwy.
- A4.32 Roedd ITV yn cytuno "yn gyffredinol" â'r diwygiadau arfaethedig ac roedd yn croesawu'r gofyniad arfaethedig yn Rheol 6.2⁶⁹ bod darlledwyr yn rhoi "pwys dyladwy" i sylw i ymgeiswyr annibynnol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebydd hwn yn ystyried bod y diwygiadau mewn perthynas â gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU yn "ddianghenraid o ailadroddus" ac awgrymodd y gellid delio â'r diwygiadau⁷⁰ i Reolau 6.4, 6.6 a 6.7 mewn un troednodyn i'r holl reolau hynny fel a ganlyn: "Mewn perthynas â Rheolau 6.4, 6.6 a 6.7, nid oes yn rhaid i

⁶⁹ Roedd y Rheol 6.2 newydd roeddem yn ei gynnig yn datgan: "Rhaid rhoi pwys dyladwy ar y sylw i'r pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw i'w rhoi i bleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, rhaid i ddarlledwyr ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Rhaid i ddarlledwyr hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig".

⁷⁰ Roedd y Rheolau 6.4, 6.6 a 6.7 newydd roeddem yn eu cynnig yn datgan:

"6.4 Rhaid gorffen trafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda pan fydd y pleidleisio'n dechrau. (Mae hyn yn cyfeirio at agor y gorsafoedd pleidleisio eu hunain. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais a gynhelir drwy'r post yn unig.) Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros y cyfnod pan fydd modd pleidleisio".

"6.6 Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU, beidio â gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr neu gyflwynwyr mewn unrhyw fath o raglen yn ystod cyfnod yr etholiad. Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros gyfnod yr etholiad neu'r refferendwm".

"6.7 Mae ymddangosiadau gan ymgeiswyr (yn etholiadau'r DU) neu gynrychiolwyr (i gyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU) mewn rhaglenni anwleidyddol a gafodd eu cynllunio neu eu hamserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm yn cael mynd ymlaen, ond ni ddylid trefnu a darlledu unrhyw ymddangosiadau newydd yn ystod y cyfnod. Nid oes yn rhaid i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros gyfnod yr etholiad neu'r refferendwm".

wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU dynnu cynnwys archif dros gyfnod yr etholiad neu'r refferendwm”.

- A4.33 Roedd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig yn cefnogi'r holl ddiwygiadau arfaethedig i Adran Chwech ac roedd y Blaid Lafur yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â'r BBC ond nid oedd yn cytuno â dileu'r cyfeiriadau at y cysyniad o'r pleidiau mwy am y rhesymau a roddir ym mharagraff A4.18 uchod. Yn yr un modd, nid oedd Global yn cytuno â dileu'r cyfeiriadau at bleidiau mwy ond roedd yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig eraill, gan ddweud ei fod yn eiriol “dull gweithredu cyson ar draws radio masnachol a'r BBC yn y maes hwn”.
- A4.34 Roedd nifer o'r ymatebwyr eraill yn cytuno â diwygiadau arfaethedig Ofcom i Adran Chwech, sef: y VLV, unigolyn a ymatebodd, Fred Weil; a'r Athro Ivor Gaber a ddywedodd ei bod hi'n “hanfodol bod pob darparwr newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei weld yn dilyn safon gyffredin, o ran tegwch ac i sicrhau a chadw hyder mewn gwasanaethau newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus”.
- A4.35 Yn ei ymateb, roedd ITN yn awgrymu y dylid disodli'r geiriau “rhaid i ddarlledwyr” gyda “dylai darlledwyr fel rheol” yn Rheol 6.9⁷¹ oherwydd, yn ei farn ef, mae'r rhwymedigaeth yn Rheol 6.9 “yn atal dewis golygyddol a dylai fod lle mewn achosion eithriadol i beidio â chynnig cyfle i bob ymgeisydd gymryd rhan”, ar yr un pryd â chynnal didueddrwydd dyladwy. Dywedodd ITN fel enghraifft, “yn hytrach na'r ymgeisydd lleol efallai ei bod hi'n fwy priodol defnyddio arweinydd / llefarydd cenedlaethol neu un o Weinidogion y Llywodraeth a bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny, mewn adroddiad etholiadol sy'n canolbwyntio ar fater penodol (fel addysg neu iechyd neu Brexit) i siarad am y mater”.
- A4.36 Awgrymodd Plaid Genedlaethol yr Alban ddileu'r cyfeiriad at Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (“PPERA”) yn y diffiniad o “refferendwm” yn Adran Chwech, a diffinio refferendwm fel “refferendwm ar draws y DU, cenedlaethol neu ranbarthol statudol...”. Roedd hyn oherwydd y darparwyd ar gyfer Refferendwm 2014 ar Annibyniaeth yr Alban gan Ddeddf o Senedd yr Alban ac mae Bil drafft ar refferendwm yn y dyfodol wedi cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth yr Alban.
- A4.37 Roedd Dr Sally Broughton Micova yn cytuno â dileu'r cyfeiriadau at y cysyniad o bleidiau mwy o Adran Chwech. Fodd bynnag, dywedodd fod gan y BBC “ddyletswydd arbennig i roi lle i grwpiau lleiafrifol a allai fel arall o bosibl ei chael hi'n anodd dod o hyd i lwyfan i fynegi eu hunain ac y gallent fel arall gael eu gwthio i'r cyrion gan gyfryngau prif ffrwd”. Cyfeiriodd yr ymatebydd yma felly at Reol 6.2⁷² yn datgan “bod gan wasanaethau'r BBC ddyletswydd benodol i chwilio am bleidiau lleiafrifol ac ymgeiswyr annibynnol a rhoi sylw iddynt, a'i fod yn cynrychioli amrywiaeth y wlad yn ddigonol yn ei sylw i ymgeiswyr”.
- A4.38 Yn yr unig ymateb arall yn y maes hwn roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn mynegi pryder ynghylch y “diffiniad amwys o ‘dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol””, a ddylai yn ei farn ef “gael ei ddiffinio'n well gyda mesurau gwrthrychol priodol”.

⁷¹ Edrychwch ar droednodyn 63.

⁷² Edrychwch ar droednodyn 69.

Y diwygiadau sy'n cael eu cynnig i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda

- A4.39 Cawsom 14 o ymatebion ynghylch yr agwedd hon o'r Ymgynghoriad.
- A4.40 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diwygiadau a gynigiwyd gan Ofcom. Sef: y BBC; ITN; Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig; y VLV; Dr Sally Broughton Micova; ac unigolyn a ymatebodd, Fred Weil; a'r Athro Ivor Gaber a ddywedodd ei bod hi'n hanfodol sicrhau "tegwch" rhwng y BBC a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.
- A4.41 Cododd nifer o ddarlledwyr bryderon gydag agweddau o'r diwygiadau arfaethedig. Roedd Channel 4 a Channel 5 ill dau wedi mynegi cefnogaeth yn gyffredinol at y diwygiadau i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Fodd bynnag roedd y naill ymatebydd a'r llall yn gwrthwynebu'r cynnig i gadw'r gofyniad yn Rheol 14⁷³ o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda sef bod Channel 4 a Channel 5 yn cynnig darllediadau etholiadol gan bleidiau ar gyfer Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru. Dywedodd Channel 4, wrth ystyried cynnig Ofcom i ddileu'r cysyniad o bleidiau mwy (ac felly cyfeiriadau at bleidiau penodol) o'i reolau, fod parhau i gyfeirio at Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru yn ymddangos "fel petai'n mynd yn groes i hynny" ac yn lleihau rhyddid golygyddol Channel 4 a Channel 5. Dywedodd Channel 4 hefyd fod Ofcom yn rhoi "triniaeth ffafriol" i Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru ac y gallai Rheol 14 "lesteirio pleidiau eraill sy'n gweithredu yn yr Alban ac yng Nghymru ac sy'n cynyddu eu cefnogaeth etholiadol bresennol yn sylweddol". Awgrymodd Channel 4 felly ddiwygio'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i fynnu bod Channel 4 a Channel 5 yn cynnig darllediadau etholiadol gan bleidiau i bleidiau cofrestredig yng Nghymru a'r Alban gan ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol.
- A4.42 Gwnaeth Channel 5 bwyntiau tebyg gan ddweud ei fod bob amser wedi dyrannu darllediadau etholiadol i bleidiau i Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru mewn Etholiadau Cyffredinol ac Etholiadau Ewropeaidd, yn rhannol "oherwydd bod y pleidiau hynny'n amlwg yn chwarae rhan sylweddol ym mywyd gwleidyddol y Deyrnas Unedig". Ychwanegodd Channel 5 fod y Rheolau diwygiedig ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda yn ceisio "rhoi mwy o gyfrifoldeb i ddarlledwyr; a byddwn yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw drwy barhau i gydnabod [Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru] yn briodol yn ein dyraniadau darllediad etholiadol gan bleidiau". Roedd Channel 5 hefyd yn cwestiynu drafftio Rheol 14. Dywedodd "rydym yn credu bod Ofcom eisiau cadw'r sefyllfa gyfredol" ond, fel y caiff ei ddrafftio: "Bydd angen i Channel 5 (fel Channel 4) ystyried cynnig darllediadau etholiadol gan bleidiau i bob plaid gofrestrdig, ar yr amod eu bod yn pasio'r meini prawf cymhwys a nodir yn Rheolau 15 a 16... [Fodd bynnag] oherwydd bod [Plaid Geidwadol yr Alban a Phlaid Cymru] ond yn sefyll yn yn yr Alban ac yng Nghymru y naill a'r llall, ni fyddant byth yn gymwys o dan Reol 15 – felly nid yw eu henwi yn Rheol 14 yn cael unrhyw effaith o sylwedd o gwbl".

⁷³ Roedd y Rheol 14 newydd roeddem yn ei gynnig yn datgan: "Cyn Etholiad Cyffredinol, ac yn achos etholiadau eraill pan fydd hynny'n briodol, dylid cynnig i bob un o'r pleidiau cofrestredig (yn amodol ar Reolau 15 a 16) un darllediad etholiadol gan bleidiau neu ragor, a'r Trwyddedai fydd yn penderfynu ar hyd y gyfres a gynigir i blaid benodol. Mae hyn yn cynnwys yr SNP a Phlaid Cymru ar Channel 4 a Channel 5. Ym mhob achos, dylid penderfynu ar nifer y darllediadau etholiadol gan bleidiau gan ystyried amgylchiadau etholiad penodol, y wlad lle caiff ei gynnal, a chefnogaeth y blaid unigol mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol yn y wlad honno (edrychwch ar Reol 16)."

A4.43 Mynegodd ITV/STV hefyd gefnogaeth gyffredinol ar gyfer y diwygiadau sy'n cael eu cynnig i'r Rheolau ar ddarlediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, ond gan ddweud bod rhai o'r diwygiadau arfaethedig yn "ddianghenraid o gyfreithiol a chymhleth". Er enghraifft, awgrymodd ITV/STV ddisodli'r term "Gwasanaethau Perthnasol" gyda'r term "darlledwyr". Yn yr un modd â Channel 4 a Channel 5 dywedodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylid dileu'r cyfeiriad at Blaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru o Reol 14. Roedd hyn "nid oherwydd na ddylai'r pleidiau hynny gael darlediadau etholiadol gan bleidiau ar y sianeli a enwir yn y Rheolau presennol nac gan ddarlledwyr eraill, ond oherwydd mai rhesymeg y Rheolau newydd yw y dylai darlledwyr benderfynu ar ddyrannu darlediadau etholiadol gan bleidiau". Awgrymodd ITV/STV hefyd ddileu'r cyfeiriadau at etholiadau Senedd Ewrop gan ystyried ar ôl Refferendwm 2016 ynghylch yr UE y byddai yn "annhebyg y bydd y DU yn cymryd rhan" mewn etholiadau pellach o'r fath.

A4.44 Gofynnodd S4C i Reolau 21 a 22⁷⁴ o'r Rheolau arfaethedig ar ddarlediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda "bennu yn glir" ei bod yn rhaid i ddarlledwyr benderfynu ar ddyrannu darlediadau pleidiau gwleidyddol "ar sail asesiad blynyddol (12 mis), ac nad oes gofyniad i'r darlledwyr wneud asesiad ar gyfer y tri chyfnod (hydref, gaeaf a gwanwyn) ar wahân". Dywedodd S4C hefyd er mwyn "sicrhau tryloywder ac er mwyn osgoi dryswch i bleidiau, byddai S4C yn hoffi i'r Rheolau ar ddarlediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda bennu i ba raddau maent yn berthnasol i S4C". Roedd yr ymatebydd hwn felly yn gofyn i'r Rheolau ar ddarlediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda gyfeirio at Atodlen 12, paragraff 18 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

A4.45 Holodd Global ynghylch "gwerth parhaus" y gofyniad ar wasanaethau radio cenedlaethol i ddarparu darlediadau etholiadol gan ddatgan "mae'n ymddangos nad oes ymchwil ar gael sy'n cefnogi eu gwerth ar radio". Ychwanegodd yn ystod Etholiad Cyffredinol 2015 fod gwasanaethau radio cenedlaethol wedi cynnig 12 slot darllediad etholiadol gan bleidiau, a oedd yn "dileu'r refeniw o 12 egwyl hysbysebu – yn ogystal â chynhyrchu cwynion gan wrandawyr ac yn ddiau yn gwneud iddynt ddiffodd neu newid gorsaf". Gwnaeth Global y pwyntiau eraill canlynol:

- holodd yr ymatebydd pam nad oedd yn rhaid i BBC Radio 3 ddarlledu darlediadau etholiadol gan bleidiau ond bod ei "gystadleuydd agosaf" Classic FM yn gorfod gwneud hynny;
- dywedodd Global ei fod yn deall bod y BBC wedi darlledu darlediadau etholiadol gan bleidiau yn y gorffennol a oedd yn 1'30". Roedd felly yn dadlau y dylid cwtogi ar hyd y darlediadau i 1'30" ar gyfer pob "Gwasanaeth Perthnasol", gan ddadlau y byddai darlediadau byrrach "yn ffordd fwy

⁷⁴ Roedd y Rheolau 21 a 22 newydd roeddem yn eu cynnig yn datgan:

"21. Ym mhob un o wledydd y DU, cynigir un neu ragor o ddarlediadau pleidiau gwleidyddol i bleidiau dros gyfnod o 12 mis os:

- oes gan blaid un sedd neu ragor yn y wlad honno mewn unrhyw senedd neu gynulliad perthnasol[...]; ac
- mae tystiolaeth o'u cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol/neu gefnogaeth bresennol mewn etholiad penodol neu yn y wlad honno'n golygu y byddai'n briodol gwneud hynny".

"22. Bydd pleidiau ym Mhrydain Fawr (yn amodol ar Reol 21) yn cael cynnig un darllediad pleidiau gwleidyddol ym mhob un o'r tri chyfnod canlynol: Hydref; Gaeaf; a Gwanwyn, Bydd pleidiau yng Ngogledd Iwerddon (yn amodol ar Reol 21) yn cael cynnig un neu ddau darllediad gwleidyddol yn y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Mawrth (heb gynnwys mis Rhagfyr). Ni ddylid darlledu unrhyw ddarlediadau pleidiau gwleidyddol yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm".

effeithiol o lawer” i bleidiau gyflwyno eu polisiau ar y radio yn yr oes ddigidol;
a

- croesawodd yr ymatebydd y cynnig i symleiddio'r rheolau amserlennu, gan ganiatáu amserlennu darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm unrhyw bryd rhwng 6am a 10pm ar y radio. Fodd bynnag, roedd yn ffafrio rhagor o lacio er mwyn gallu amserlennu darllediadau unrhyw bryd rhwng 6am a hanner nos a fyddai'n galluogi gorsafoedd radio i “leihau effaith fasnachol ac ariannol” darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm ac osgoi “gwrandawyr yn diffodd”.

A4.46 Mynegodd y Democratiaid Rhyddfrydol bryder ynghylch beth roedd yn ei ddisgrifio fel “y diffiniad amwys o ‘dystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol””, yn y Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda, ac yn ei farn ef dylid cael “diffiniad gwell gyda mesurau gwrthrychol priodol”. Dywedodd y dylai “pleidiau sy'n cyrraedd y meini prawf o ran nifer y seddi maent yn eu hymlladd a sicrhau lefel wedi'i diffinio o gefnogaeth, gael mwy nag un darllediad etholiadol gan bleidiau, yn wahanol i'r rheini sy'n sefyll yn y nifer gofynnol o seddi ond sy'n cael lefelau arbennig o isel o gefnogaeth”. Ychwanegodd y dylai'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda gynnwys “meini prawf clir sydd wedi'u gosod ar gyfer faint o ddarllediadau etholiadol gan bleidiau a gaiff plaid yn unol â meini prawf gwrthrychol a thryloyw. Er enghraifft ‘dyrannu X darllediad etholiadol gan bleidiau i bleidiau sydd wedi dangos cefnogaeth drwy Y’”. Roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig i “ehangu'r ffenestr ddarlledu i 11.30pm, oherwydd ein bod yn credu bod hyn y tu hwnt i'r hyn y byddai'n rhesymol ei ystyried fel ‘oriau brig’ fel y diffiniwyd o'r blaen”. Ychwanegodd y dylid cael gofyniad am slotiau cymharol er mwyn peidio â chael achosion o ddarllediadau gwleidyddol pleidiau/darllediad etholiadol gan bleidiau un blaid yn cael eu darlledu am 7pm a rhai plaid arall yn cael eu darlledu am 11:25. Yn olaf, awgrymodd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd y dylid cael mwy o hyblygrwydd o ran hyd y darllediadau pleidiau gwleidyddol a'r darllediadau etholiadol gan bleidiau ar deledu, gan ganiatáu hyd at 4'40" a slotiau byrrach o 1'40" neu 0'40”.

A4.47 Dywedodd y Blaid Lafur ei bod mewn egwyddor yn cefnogi'r diwygiadau i'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda i sicrhau bod y BBC yn cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â darlledwyr eraill. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebydd hwn yn cytuno â dileu'r cyfeiriadau at bleidiau mwy o'r Rheolau ar ddarllediadau pleidiau gwleidyddol a refferenda. Yn benodol, dywedodd fod y cynnig i beidio â sicrhau bod darllediadau etholiadol gan bleidiau a darllediadau pleidiau gwleidyddol ar adegau brig yn cyfyngu ar hygyrchedd at bleidiau gwleidyddol mawr a'u polisiau”.

Y diwygiadau arfaethedig i Adran Pump

A4.48 Cawsom 12 o ymatebion ynghylch yr agwedd hon o'r Ymgynghoriad.

A4.49 Roedd ITN, Plaid Genedlaethol yr Alban, Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, ac unigolyn a ymatebodd, Fred Weil, yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Adran Pump. Dywedodd ITV/STV ei fod yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig “i raddau helaeth” ond roeddent yn awgrymu y dylid rhoi'r diwygiadau arfaethedig a oedd yn cyfeirio at wasanaethau rhaglenni ar-awad cyhoeddus y BBC yn y DU yn Rheol 5.2

fel troednodyn⁷⁵. Roedd y Blaid Lafur yn croesawu'r "pwyslais ar ddiueddrwydd dyladwy a chywirdeb" ac ychwanegodd "y dylid rhoi sylw i wallau a chydbwysedd ar sail straeon ffug".

- A4.50 Dywedodd y Blaid Geidwadol "pan fydd cywiriad wedi cael ei wneud i wasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU neu gynnwys gwasanaethau darlledu'r BBC, dylid hefyd tynnu sylw at gywiriad o'r fath a dylid ei nodi ar unrhyw dudalen we BBC Ar-lein cysylltiedig sy'n cynnal neu sydd â dolen i'r cynnwys ar-lein hwnnw". Ychwanegodd na ddylai cywiriadau o'r fath "gael eu claddu mewn gwefan ar wahân... neu ni fydd y cywiriad yn ddigon amlwg ac ni fyddai'r cywiriad yn cael ei 'gyfeirio'n briodol at wylwyr'".
- A4.51 Roedd nifer o ymatebwyr (y Gynghrair Cefn Gwlad, yr IBT, y VLV a Lawyers for Israel) wedi mynegi pryder bod dyletswyddau newydd Ofcom mewn perthynas â'r BBC ond yn ymestyn i orfodi safonau a osodir o dan adran 319 (ac adran 310) o'r Ddeddf hy didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy ar faterion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Roedd yr ymatebwyr hyn yn nodi o dan Ymddiriedolaeth y BBC, yr oedd gan holl gynnwys y BBC ddyletswydd i fod yn ddigon diduedd ac yn ddigon cywir. Er enghraifft, tynnodd y Gynghrair Cefn Gwlad sylw at "safle unigryw" y BBC, a chyfeiriodd at ofyniad⁷⁶ yn y Siarter newydd, a oedd ym marn yr ymatebydd yn golygu ei bod yn rhaid i gynnwys y BBC fod yn "rhagori ar y rhwymedigaethau statudol cyfyngedig sydd yn y Cod". Roedd y Gynghrair Cefn Gwlad yn gobeithio y byddai Ofcom yn ystyried hyn gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rheolau ynghylch niwed a thramgwydd sydd yn Adran Dau y Cod. Roedd yr ymatebydd hwn hefyd yn mynegi gobaith y byddai Ofcom yn cynnal adolygiadau i sylw gwledig y BBC.
- A4.52 Yn yr un modd roedd yr IBT a'r VLV ill dau yn gwrthwynebu hyd a lled y gofynion o ran didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy a fyddai'n cael eu rhoi ar y BBC, gan ddweud y byddai cylch gwaith newydd Ofcom yn golygu "gostyngiad sylweddol" yn y gwaith o reoleiddio'r BBC. Dywedodd y naill ymatebydd a'r llall fod Ymddiriedolaeth y BBC yn mynnu bod holl gynnwys y BBC yn ddigon cywir ac yn ddigon diduedd, ac roedd y ddau yn tynnu sylw at ddisgwyliadau gwahanol cynulleidfaoedd, fel y rheini sy'n talu ffi'r drwydded, yng nghyswllt y BBC o'i gymharu â darlledwyr eraill. Dywedodd yr IBT y gallai hyd a lled y rheoleiddio a gynigir yn Adran Pump "fod yn groes i fwriad y Llywodraeth 'sef i'r BBC gael ei ddal i gyfrif yn fwy cadarn am ei safonau cynnwys'". Ar bwynt cysylltiedig, roedd yr VLV yn dadlau bod adran 319 o'r Ddeddf "yn llai manwl o lawer na Chanllawiau Golygyddol y BBC... ac y gallai hyn nid yn unig arwain at ddryswch, ond ei fod yn debyg o arwain ar reoleiddio llai llym o'r BBC a allai fod yn niweidiol i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded". Yn gryno, o ran hyd a lled Adran Pump, roedd yr IBT a'r VLV ill dau yn dweud y dylai holl gynnwys y BBC gan gynnwys: cynnwys ar wahân i newyddion a materion cyfoes; cynnwys ar-lein; a'r World Service, gael eu rheoleiddio'n allanol o ran didueddrwydd a chywirdeb.

⁷⁵ Dywedodd ITV/STV y dylai'r troednodyn i Reol 5.2 ddatgan: "yn achos Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU, fel rheol dylai camgymeriadau mawr gael eu cywiro'n gyflym a dylid cyfeirio'n briodol at gywiriadau".

⁷⁶ Nododd y Gynghrair Cefn Gwlad fod y Siarter yn datgan: "Dylai'r BBC gynrychioli a phortredu yn gywir ac yn ddiwyll fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas".

- A4.53 Nododd yr IBT Reol 2.2⁷⁷ y Cod, sy'n nodi'r gofyniad i gynnwys ffeithiol beidio â chamarwain yn sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd nad yw'r rheol hon yn "rheoleiddio ar gyfer didueddrwydd" mewn cynnwys o'r fath. Cododd yr IBT bryder hefyd ynghylch paragraff 1.22⁷⁸ o'r Arweiniad a gyhoeddwyd gan Ofcom i Adran Pump a holodd a oedd y darn hwn o Arweiniad yn golygu "nad oedd angen i ddarlledwyr sydd wedi'u trwyddedu yn y DU ond sy'n trawsyrro y tu allan i'r DU roi sylw i faterion nad ydynt yn ymwneud â'r DU mewn ffordd sy'n ddigon diduedd". Yn olaf, roedd yr IBT a'r VLV ill dau yn dweud y byddent am i Ofcom gynnal adolygiadau didueddrwydd dyladwy o gynnwys y BBC, fel yr oedd Ymddiriedolaeth y BBC yn arfer ei wneud.
- A4.54 Roedd Lawyers for Israel hefyd yn gwrthwynebu nad oedd Ofcom yn gallu delio â "chwynion ynghylch gwallau cynnwys y BBC ac eithrio newyddion, er enghraifft rhaglenni dogfen sy'n delio â phynciau dadleuol". Ychwanegodd ei fod yn gweld hyn fel "methiant difrifol a thorri addewidion a wnaed gan y Llywodraeth yn y Papur Gwyn ac mewn gohebiaeth". Awgrymodd yr ymatebydd hwn hefyd y dylai Cod Ofcom neu'r Arweiniad a gyhoeddir ar gyfer Adran Pump: yn gyntaf "amlygu y disgwylir safon uchel gan y BBC wrth ystyried ei gyllid cyhoeddus drwy ffi'r drwydded a'i statws fel gwasanaeth darlledu cyhoeddus"; ac yn ail, "nodi ei bod yn rhaid i bob darlledwr fod yn arbennig o ofalus eu bod yn cyflawni cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion lle (a) gallai sylw nad yw'n gywir ac yn ddiuedd hybu hiliaeth a/neu (b) gallai ffynonellau'r wybodaeth fod yn annibynadwy".
- A4.55 Roedd y Gynghrair Cefn Gwlad, yr IBT a'r VLV hefyd yn poeni ynghylch sut byddai gwaith rheoleiddio Ofcom o'r BBC o dan Adran Pump yn ffitio o dan ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer y BBC.
- A4.56 Roedd y ddau ymateb arall a gawsom ynghylch hyn yn cyfeirio at faterion dadleuol yng nghyswllt adroddiadau newyddion yn ystod Refferendwm 2016 ynghylch yr UE gan awgrymu diwygiadau i'r Arweiniad a gyhoeddir gan Ofcom ar Adran Pump. Roedd Dr Sally Broughton Micova yn dadlau yn ystod ymgyrch Refferendwm UE 2016 fod y BBC wedi "methu rhoi digon o wybodaeth i'r cyhoedd" ac wedi "methu herio gwybodaeth anghywir yn ddigonol" ond eu bod yn hytrach wedi canolbwyntio ar yr unigolion a oedd yn arwain yr ymgyrchoedd. Dywedodd yr ymatebydd yma y dylai Arweiniad Ofcom i Adran Pump egluro na ddylai darlledwyr fod yn "caniatáu darlledu celwyddau a gwallau heb eu herio" a phan fod "tystiolaeth glir a llethol yn pwyntio at fod rhywbeth yn wir, nid yw'n safbwynt i ddadlau yn ei gylch"; ac efallai bydd angen rhagor o arweiniad ar ddarlledwyr ynghylch "pryd dylent ystyried bod rhywbeth yn fater dadleuol lle ceir nifer o 'safbwyntiau' ynghylch mater dadleuol a phryd mae'r cydbwysedd o dystiolaeth ddibynadwy yn dderbyniol".

⁷⁷ Mae Rheol 2.2 yn datgan: "Rhaid i raglenni neu eitemau ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol".

⁷⁸ Mae Paragraff 1.22 yn datgan: "Mae'r rheolau 'didueddrwydd arbennig' (Rheolau 5.4 i 5.13 gan gynnwys y rheini) yn berthnasol i faterion cenedlaethol a rhyngwladol, er efallai y bydd y didueddrwydd a roddir i fater heb fod yn un cenedlaethol yn is. Er mwyn rhoi enghraifft, mae disgwyl i ddarlledwyr ddefnyddio rheolau didueddrwydd i bwnc fel Etholiadau Arlywyddol America. Ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau gan Ofcom nad ydynt yn darlledu i'r DU, mae'r gofynion o ran didueddrwydd yn dal yn berthnasol ond efallai y byddant yn is gan ddibynnu ar y pwnc a'r wlad wreiddiol lle caiff yr allbwn ei dderbyn".

- A4.57 Roedd yr ymatebydd yma hefyd yn gwrthwynebu'r cyfeiriad at academyddion yn y diffiniad o "safbwynt personol" ac "awdurol"⁷⁹ yng nghyd-destun Rheol 5.10 o'r Cod. Ym marn yr ymatebydd yma, mae'r cyfeiriad yn "tanseilio canfyddiadau ymchwil academaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn aml nid yw academyddion yn siarad am eu barn bersonol, ond maent yn darparu arbenigedd ar sail tystiolaeth o ymchwil sydd yn aml wedi'i gynhyrchu ar y cyd gydag eraill".
- A4.58 Yng ngoleuni'r "ddadl ynghylch yr honiadau a wnaed gan y naill ochr a'r llall" yn Refferendwm yr UE, awgrymodd yr Athro Ivor Gaber y diwygiadau canlynol (mewn testun trwm) i baragraffau 1.9 a 1.10 yr Arweiniad a gyhoeddwyd gan Ofcom i Adran Pump.
- 1.9 "Yn unol â hawl darlledwr i ryddid mynegiant, mae gan y darlledwr yr hawl i ddehongli digwyddiadau newyddion fel y mae'n credu sy'n briodol, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â'r Cod. Fodd bynnag, dylai darlledwyr fod yn ofalus cyn gwneud unrhyw ddehongliadau neu ddatganiadau clir am faterion dadleuol, a allai ddibynnu ar awgrym a bod yn agored i'w ddehongli mewn gwahanol ffyrdd ee canfyddiadau ystadegol neu ddatganiadau amwys a wneir gan wleidyddion. **Dylai darlledwyr ddefnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chyflenwi gan sefydliadau gwirio ffeithiau cydnabyddedig (fel y rheini sy'n cael eu defnyddio gan y BBC a Channel Four News) er mwyn rhoi'r honiadau croes a wneir mewn cyd-destun**".
- 1.10 "Mae Rheol 5.1 o bosibl yn berthnasol i unrhyw bwnc sy'n cael ei gynnwys mewn rhaglenni newyddion, ac nid dim ond materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Nid oes gofyniad ar ddarlledwyr i ddarparu safbwynt amgen ym mhob stori newyddion neu ar bob mater yn y newyddion. **Mae hyn yn berthnasol yn benodol pan fydd gwybodaeth a ddaw o ffynhonnell awdurdodol yn cael ei herio gan wybodaeth a ddaw o ffynonellau heb eu profi.** Fodd bynnag, rhaid i bob stori newyddion cael ei hadrodd gyda chywirdeb dyladwy a rhaid ei chyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, hy didueddrwydd sy'n ddigonol neu'n briodol i'r pwnc".

⁷⁹ Mae'r Cod yn diffinio "safbwynt personol" ac "awdurol" fel a ganlyn: "Mae rhaglenni 'barn bersonol' yn rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol. Mae rhaglenni barn bersonol yn gallu amrywio o fynegiad plaen o farn bleidiol iawn, er enghraifft gan rywun sy'n aelod grŵp sy'n ymgysgu ar y mater, i farn "awdurol" ystyriol gan newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigaeth mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn un sydd yn y brif ffrwd".